



**Comisiwn
y Gyfraith**
Diwygio'r gyfraith

Adroddiad Blynyddol 2025-26

Comisiwn y Gyfraith

Adroddiad Blynyddol 2025-26

(Comisiwn y Gyfraith Rhif 427)

Trigeinfed Adroddiad Blynyddol Comisiwn y Gyfraith

Ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026

Cyflwynwyd i Senedd y DU yn unol ag Adran 3(3) o Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965

Gorchmynnwyd ei argraffu gan Dŷ'r Cyffredin ar 2 Mehefin 2026



© Hawlfraint y Goron 2026

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Os ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylai unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn gael eu hanfon atom i'r cyfeiriad a ganlyn: core-cst@lawcommission.gov.uk

ISBN 978-1-5286-6448-6

E 03597310 06/26

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan HH Associates Ltd ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi.

Adroddiad Blynyddol Comisiwn y Gyfraith 2025-26

Sefydlwyd Comisiwn y Gyfraith o dan adran 1 o Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 er mwyn hyrwyddo diwygio'r gyfraith.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026.

Cynnwys

Cyflwyniad y Cadeirydd	1
Sylwadau'r Prif Weithredwyr ar y Cyd	3
Rhan Un: Pwy ydym ni a beth rydym ni'n ei wneud	5
Comisiwn y Gyfraith	6
Rhan Dau: Adolygiad o'n gwaith ar gyfer 2025-26	10
Cyfraith Fasnachol a Chyffredin	11
Cyfraith Trosedd	15
Cyfraith Eiddo, Teulu ac Ymddiriedolaeth	20
Cyfraith Gyhoeddus a'r Gyfraith yng Nghymru	26
Rhan Tri: Gweithredu adroddiadau diwygio'r gyfraith Comisiwn y Gyfraith 2025-26	30
Adroddiadau a weithredwyd yn ystod y cyfnod	32
Rhan Pedwar: Ein pobl a materion corfforaethol a mathau eraill o weithgarwch diwygio'r gyfraith	34
Rhan Pump: Gwerthuso Cynllun Busnes 2025-26	42
Atodiad A: Statws gweithredu adroddiadau diwygio'r gyfraith Comisiwn y Gyfraith	51
Atodiad B: Cost Comisiwn y Gyfraith	70
Atodiad C: Targedau ar gyfer 2025-26 a 2026-27	72

Cyflwyniad y Cadeirydd



Y Gwir Anrhydeddus David Lammy AS, Yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Dirprwy Brif Weinidog.

Mae'n bleser gennyf gyflwyno trigeinfed Adroddiad Blynyddol Comisiwn y Gyfraith. Fel bob amser, mae Comisiwn y Gyfraith wedi cael deuddeg mis prysur iawn. Mae ein cynhyrchiant yn uchel, ac ar hyn o bryd rydym yn ymwneud â 18 o brosiectau diwygio'r gyfraith sy'n ymdrin â nifer o bynciau o Reoli Ystadau Tai, Atebolrwydd Cynnyrch, Hygyrchedd Trafnidiaeth i Bobl Anabl a Dirmyg Llys. Ochr yn ochr â'n gwaith o ddiwygio'r gyfraith o ddydd i ddydd, mae'r sefydliad yn parhau i fwrw ymlaen â'n hymgysylltu rhyngwladol (gan gyhoeddi ein strategaeth ffurfiol ym mis Tachwedd 2025) a hyrwyddo rheolaeth y gyfraith, chwilio am ffyrdd o gryfhau ein hannibyniaeth sefydliadol a pharhau â'n gwaith ar gyfer cymdeithas.

Roedd hon yn flwyddyn arbennig o bwysig i Gomisiwn y Gyfraith wrth i ni lansio ein 14eg Raglen Diwygio'r Gyfraith ym mis Medi 2025. Mae'r Rhaglen hon yn amrywiol ac yn flaengar, ac mae gan y deg prosiect newydd i gyd y potensial i ddwyn manteision sylweddol i Gymru a Lloegr. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a gyfrannodd at ymgynghoriad y 14eg Raglen, ac am yr amser a'r ymdrech a roddodd ein rhanddeiliaid i hyrwyddo'r

achos dros ddiwygio'r gyfraith. Bydd y Rhaglen hon yn sicrhau bod Comisiwn y Gyfraith yn parhau i gyflawni ei swyddogaeth statudol o sicrhau bod y gyfraith yn deg, yn fodern, yn syml ac yn gost-effeithiol.

Gwnaethom barhau â dathliadau i nodi pen-blwydd Comisiwn y Gyfraith yn 60 oed yn ystod y flwyddyn adrodd hon. Roedd y digwyddiadau a'r dulliau amrywiol a ddefnyddiwyd gennym i ddathlu cyflawniadau'r sefydliad yn dangos pam ein bod yn parhau i fod mor berthnasol a phwysig i ddatblygu'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr. Mae gallu gwneud hyn gydag ystod mor eang o randdeiliaid yn gamp ynddi'i hun. Roedd y dathliadau yn ffordd bwysig o'n hatgoffa pam mae Comisiwn y Gyfraith yn parhau i ffynnu a chynnal ei enw da fel arweinydd byd-eang ym maes diwygio'r gyfraith. Rhaid i mi bwysleisio nad oes neb yng Nghomisiwn y Gyfraith yn hunanfodlon, ac rydym bob amser yn ceisio arloesi a bodloni anghenion ein cymdeithas o ran diwygio'r gyfraith.

Mae ein perthynas â Senedd y DU mor bwysig ag erioed. Ym mis Tachwedd 2025, rhoddodd yr Athro Penney Lewis a minnau dystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder. Drwy'r sesiwn dystiolaeth hon, bu modd i ni godi ymwybyddiaeth o'r gwaith pwysig rydym yn ei wneud a helpu i ddeall yr ystod eang o fanteision a gwerth sy'n deillio o'n gwaith. Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am roi amser i ni drafod ystod mor eang o bynciau gyda nhw. Fel bob amser, byddwn yn parhau i chwilio am ffyrdd eraill o ymgysylltu â Seneddwy'r fel y bo'n briodol.

Roeddwn yn falch iawn bod dau Gomisiynydd newydd wedi'u penodi ym mis Mai 2025, gan ymuno â'r sefydliad ym mis Medi 2025. Cymerodd yr Athro Solène Rowan yr awenau fel Comisiynydd Cyfraith Fasnachol a Chyfraith Gyffredin, a chymerodd yr Athro Lisa Webley yr awenau fel Comisiynydd Cyfraith Eiddo, Teulu ac Ymddiriedolaeth. Mae eu profiad sylweddol a'u hanes academiaidd wedi bod yn amhrisiadwy i'w timau ers dechrau yn y swydd. Rhaid i mi

ddiolch i David Hertzell, a gamodd i'r adwy i ddarparu cefnogaeth ac arweinyddiaeth dros dro i'r tîm Cyfraith Fasnachol a Chyfraith Gyffredin yn absenoldeb Comisiynydd, ac i'r Athro Nick Hopkins, a adawodd Comisiwn y Gyfraith ym mis Mehefin 2025, am ei 10 mlynedd o wasanaeth fel Comisiynydd Cyfraith Eiddo, Teulu ac Ymddiriedolaeth. Mae'r Athro Alison Young hefyd yn parhau â'i gwaith fel Comisiynydd Cyfraith Gyhoeddus a'r Gyfraith yng Nghymru.

Fe wnaethom groesawu Stephanie Hack, un o'n Prif Swyddogion Gweithredol ar y Cyd, yn ôl ym mis Medi 2025 ar ôl seibiant gyrfa byr. Hoffwn ddiolch i Roshnee Patel a ddechreuodd yn ei swydd fel Prif Swyddog Gweithredol ar y Cyd, ochr yn ochr â Joanna Otterburn, am y cyfnod hwnnw.

Bydd cyfnod o newid pellach yn y sefydliad yn ddiweddarach eleni, gan y bydd Cadeirydd newydd yn cymryd yr awenau gennyf ddiwedd 2026. Rwy'n siŵr y bydd y Cadeirydd newydd, fel ydw i, yn llawn edmygedd o'r gwaith rydym yn ei wneud fel sefydliad. Rydw i wedi bod yn hynod falch o bopeth a gyflawnwyd yn ystod fy nghyfnod fel Cadeirydd, a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb yng Nghomisiwn y Gyfraith am eu gwaith caled a'u hymroddiad i ddiwygio'r gyfraith.

Syr Peter Fraser
Cadeirydd

Sylwadau'r Prif Weithredwyr ar y Cyd



Yn ystod blwyddyn adrodd 2025-26, mae Comisiwn y Gyfraith wedi archwilio a chyhoeddi gwaith arbenigol ar faterion cyfreithiol a pholisi sy'n ymdrin â sawl agwedd ar ein cymdeithas, wrth gyflawni ei ddiben statudol. Mae'r Comisiwn wedi edrych ar bynciau mor bwysig ac amrywiol â mentrau cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol, atebolrwydd sifil yn oes deallusrwydd artiffisial, tenantiaethau busnes, gofal cymdeithasol i blant anabl, anghydfodau am asedau digidol a dogfennau masnach electronig ar draws ffiniau, y gyfraith dirmyg, cyfraith amaethyddiaeth yng Nghymru, tystiolaeth mewn erlyniadau troseddau rhyw, a'r ffordd y mae pobl yn ffarwelio â'u hanwyliaid drwy gladdu, amlosgi a dulliau angladdol newydd. Mae'r prosiectau hyn yn dangos sefydliad sy'n gweithio gyda ffocws, trylwyrdd ac annibyniaeth, ac sydd ag ymrwymiad clir i ddiwygio'r gyfraith mewn modd ymarferol sy'n werthfawr i'r cyhoedd.

Drigain mlynedd ers ei sefydlu, mae Comisiwn y Gyfraith yn parhau i fod mewn sefyllfa unigryw o dda i ymgymryd â'r gwaith pwysig a threfnus o ddiwygio'r gyfraith a ragwelwyd gan yr Arglwydd Gardiner yn 1965. Rydym yn gweithio'n adeiladol gydag adrannau'r Llywodraeth a Llywodraeth Cymru ond rydym yn annibynnol arnynt. Rydym yn archwilio amrywiaeth o ffynonellau ac yn cynhyrchu deunydd manwl ac awdurdodol, ond nid ydym yn gysylltiedig â'r byd academiaidd. Rydym yn defnyddio profiad bywyd, arbenigol a byd go iawn rhanddeiliaid, deiliaid swyddi

barnwrol a'r cyhoedd, ond hefyd yn defnyddio ein harbenigedd mewnol ein hunain. Ac rydym yn gweithio'n agos gyda Senedd y DU a'i swyddogion, ond yn parhau i fod yn anwleidyddol. Roedd ein pen-blwydd yn 60 oed yn foment bwysig o fyfyrto i feithrin dealltwriaeth o ble gallwn ddefnyddio adnoddau cyfyngedig y Comisiwn i gael y gwerth mwyaf posib i gymdeithas o ran effaith economaidd a llesiant ei dinasyddion.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cafodd dau o filiau Comisiwn y Gyfraith eu deddfu (Deddf Cyflafareddu 2025 a Deddf Eiddo (Asedau Digidol etc) 2025), a chafodd nifer o argymhellion cyfiawnder troseddol Comisiwn y Gyfraith eu cynnwys yn y Bil Llysoedd a Thribiwnlysoedd. Carreg filltir bwysig arall oedd gosod 14eg Raglen Diwygio'r Gyfraith gerbron Senedd y DU ym mis Medi 2025. Bydd deg prosiect arwyddocaol, a ddewisir drwy asesiad trylwyr o fanteision, addasrwydd ac angen cyfreithiol yn llywio cam nesaf gwaith y Comisiwn. Ochr yn ochr â'r prosiectau rhaglen hyn, rydym wedi parhau i dderbyn cyfeiriadau Gweinidogol blaenoriaeth uchel, gan gynnwys prosiectau newydd ar hygyrchedd trafnidiaeth, cyd-achosion defnyddwyr, a ffermio a'r amgylchedd yn Lloegr. Mae'r dull cytbwys hwn yn sicrhau bod y Comisiwn yn parhau i fod yn strategol ac yn ymatebol.

Mae'r Comisiwn yn parhau i gael ei ariannu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, gyda chyllideb graidd o £5.16m. Er mwyn talu am gostau gweithredu gwirioneddol, mae'r Comisiwn hefyd yn adennill cyllid ar gyfer prosiectau penodol gan adrannau noddi ar draws Whitehall a Llywodraeth Cymru i gynhyrchu rhagor o incwm, gan ddychwelyd y balans i'r Weinyddiaeth. Rydym yn cyflogi tua 83 aelod o staff, ac mae 76% ohonynt yn gweithio mewn rolau prosiect cyfreithiol. Rydym yn ffodus o weithio gyda chydweithwyr hynod ymroddedig, sydd wedi ymrwymo i fod ar flaen y gad o ran diwygio'r gyfraith er budd ein cymdeithas. Fodd bynnag, mae bwrw ymlaen â nifer fawr o

brosiectau ar unrhyw adeg benodol yn rhaglen heriol; felly eleni rydym wedi adolygu model gweithredu'r sefydliad i sicrhau bod ganddo'r gallu, y capasiti a'r diwylliant sy'n ofynnol i barhau i ddiwygio'r gyfraith yn rhagorol yn unol ag anghenion cymdeithas. Fe wnaethom ofyn i bobl ag arbenigedd o'r tu allan i'r sefydliad adolygu ein dull o ddarparu adnoddau ar gyfer prosiectau a'n harbenigedd mewn gwaith cyfreithiol, cyfathrebu a data a dadansoddi, i'n helpu i nodi risgiau a chyfleoedd. Fe wnaethom hefyd benodi'r Cwnsler Arbennig cyntaf i Gymru, i gefnogi ein gwaith tymor hirach ar ddiwygio cyfraith Cymru.

Rydym yn ymwybodol iawn o'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus, a byddwn yn parhau i ddod o hyd i ffyrdd o fod yn fwy effeithlon o ran sut rydym yn cyflawni ein gwaith. Mae cyfle'n cael ei gyflwyno o ran defnyddio deallusrwydd artiffisial; mae ein Tasglu Deallusrwydd Artiffisial dan arweiniad staff wedi dechrau treialu adnoddau gweinyddol i gefnogi cynhyrchiant, gan barhau i fod wedi'i angori'n gadarn yng ngwerthoedd ein sefydliad sef annibyniaeth, gonestrwydd ac arbenigedd. Rydym hefyd wedi cryfhau ein llywodraethu mewnol gydag adolygiad annibynnol o effeithiolrwydd y Bwrdd. Bydd y Bwrdd yn myfyrio ar ei argymhellion wrth symud ymlaen.

Ar draws yr holl waith hwn, rydym yn dal yn ddiolchgar iawn i'n cydweithwyr yng Nghomisiwn y Gyfraith am eu hymrwymiad i ddiwygio'r gyfraith a gwasanaethau cyhoeddus. Rydym hefyd yn ddyledus i'n hymgyngoreion, aelodau'r Bwrdd, cydweithwyr ar draws Senedd y DU, y Llywodraeth a Llywodraeth Cymru. Mae eu cyfraniadau'n sicrhau y gallwn barhau i gyflwyno cyfreithiau modern, hygyrch a theg ar gyfer Cymru a Lloegr. Rydym hefyd yn talu teyrnged i Roshnee Patel, a wasanaethodd fel Prif Swyddog Gweithredol ar y Cyd rhwng mis Ebrill a mis Medi yn ystod y flwyddyn adrodd hon.

Joanna Otterburn a Stephanie Hack
Prif Weithredwyr ar y Cyd

Rhan Un:

Pwy ydym ni a beth rydym ni'n ei wneud

Comisiwn y Gyfraith

Arweinir Comisiwn y Gyfraith gan bedwar Comisiynydd a Chadeirydd, a phenodir pob un ohonynt gan yr Arglwydd Ganghellor. Ar 31 Mawrth 2026, Comisiynwyr y Gyfraith oedd:

- Syr Peter Fraser,¹ Cadeirydd.
- Yr Athro Penney Lewis,² Cyfraith Trosedd.
- Yr Athro Alison Young,³ Cyfraith Gyhoeddus a'r Gyfraith yng Nghymru.
- Yr Athro Lisa Webley,⁴ Cyfraith Eiddo, Teulu ac Ymddiriedolaeth.
- Yr Athro Solène Rowan,⁵ Cyfraith Fasnachol a'r Gyfraith Gyffredin.

Cefnogir y Comisiynwyr gan staff Comisiwn y Gyfraith. Mae'r staff yn weision sifil ac yn cael eu harwain gan ein dau Brif Weithredwr ar y Cyd, Joanna Otterburn a Stephanie Hack. Dros y cyfnod 2025-26, bu Roshnee Patel yn Brif Weithredwr ar y Cyd dros dro tan fis Medi 2025.

Cafodd Comisiwn y Gyfraith ei greu gan Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 er mwyn diwygio'r gyfraith, a'i noddi gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Prif amcan Comisiwn y Gyfraith yw datblygu, symleiddio a diwygio'r gyfraith. Rydym yn gwneud hyn drwy adolygu meysydd o'r gyfraith a gwneud argymhellion ar gyfer newid. Rydym yn ceisio sicrhau bod y gyfraith mor syml, hygyrch, teg, modern â phosib.

Mae nifer o fathau penodol o ddiwygio yn dod o dan Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965:

- Symleiddio a moderneiddio'r gyfraith.
- Codeiddio.
- Dileu anomaleddau.
- Diddymu deddfiadau sydd wedi darfod a rhai diangen.
- Cydgrynhoi deddfwriaeth.

Mae'r cynnydd rydym wedi'i wneud ar ein prosiectau diwygio'r gyfraith rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026 yn cael ei gofnodi yn Rhan Dau o'r adroddiad hwn.

Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd

Mae Aelodau Anweithredol o Fwrdd Comisiwn y Gyfraith yn darparu cefnogaeth, her annibynnol ac arbenigedd i'r Comisiwn pan fydd yn cyfarfod fel Bwrdd. Fodd bynnag, cyfrifoldeb y Comisiynwyr yn unig yw dewis prosiectau a chynnwys adroddiadau a phapurau ymgynghori Comisiwn y Gyfraith.

Mae gennym dri Aelod Anweithredol o'r Bwrdd sy'n brofiadol ac yn wybodus iawn, sef Dr Hannah White, Claire Bassett a'r Farwnes Shaista Gohir.

1 Ymunodd Syr Peter Fraser â'r Comisiwn ar 1 Rhagfyr 2023.
2 Ymunodd yr Athro Penney Lewis â'r Comisiwn ar 1 Ionawr 2020.
3 Ymunodd yr Athro Alison Young â'r Comisiwn ar 18 Mawrth 2024.
4 Ymunodd yr Athro Lisa Webley â'r Comisiwn ar 1 Medi 2025.
5 Ymunodd yr Athro Solène Rowan â'r Comisiwn ar 7 Medi 2025.

Ein hamcanion

Uchelgais Comisiwn y Gyfraith yw:

- Bod yn llais awdurdodol ar ddiwygio'r gyfraith.
- Gwneud gwahaniaeth drwy ein gwaith diwygio'r gyfraith.
- Bod yn rhagweithiol wrth hyrwyddo'r angen i ddiwygio'r gyfraith mewn meysydd allweddol.
- Cael enw da yn y DU a thramor am ddiwygio'r gyfraith yn effeithiol.
- Denu'r dalent orau a bod yn lle rhagorol i weithio.

Yn ystod y cyfnod adrodd, dyma fu ein prif bethau i'w cyflawni:

- Cyflwyno argymhellion o ansawdd uchel ar gyfer diwygio'r gyfraith yn yr adroddiadau a gyflwynir i Senedd y DU.
- Cryfhau ein proffil rhyngwladol a Seneddol.
- Gwellu sut rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd.
- Parhau i wellu ein ffyrdd o weithio drwy wneud cynnydd ar y model gweithredu targed, cynhyrchiant a gallu sefydliadol.

Ein perthynas â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder

Ym mis Gorffennaf 2015, fe wnaethom gytuno ar Ddogfen Fframwaith gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, 'sy'n nodi'r fframwaith cyffredinol ar gyfer nawdd yr Adran i'r Comisiwn a sut dylai'r berthynas rhwng y Comisiwn a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder weithredu.

Mae'r Ddogfen Fframwaith bresennol yn amlinellu cyfrifoldebau tîm nawdd y Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn perthynas â'r Comisiwn. Y tîm nawdd a'r Ganolfan Arbenigedd Cyrff Hyd Braich yw ein prif gysylltiadau yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae eu haelodau'n gweithredu fel eiriolwyr i ni yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac mewn adrannau eraill, ac yn sicrhau ein bod yn ymwybodol o safbwyntiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac unrhyw bolisiau adrannol perthnasol.

Mae'r Ddogfen Fframwaith yn nodi'n glir, er bod gan y tîm nawdd a Chanolfan Arbenigedd Corff Hyd Braich rôl yn monitro gweithgareddau'r Comisiwn, nad oes gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder "unrhyw ran yn y gwaith o arfer barn y Comisiynwyr mewn perthynas â chyflawni eu swyddogaethau".

Mae pa mor aml y bydd Gweinidogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac adrannau eraill yn cwrdd ag aelodau'r Comisiwn, a chwmpas perthynas y Comisiwn â Senedd y DU, hefyd wedi'u nodi yn y Ddogfen Fframwaith, er bod y trefniadau hyn yn gallu gweithredu'n fwy hyblyg. Mae'r Fframwaith yn rhoi manylion dyletswyddau statudol yr Arglwydd Ganghellor mewn perthynas â'r Comisiwn a'r berthynas uniongyrchol sydd gennym â Senedd y DU drwy, er enghraifft, gynnal cysylltiadau â Seneddswyr a chadeiryddion pwyllgorau, a rhoi tystiolaeth mewn perthynas â'n swyddogaethau neu ein prosiectau.

14eg Raglen Diwygio'r Gyfraith

Lansiwyd ein 14eg Raglen Diwygio'r Gyfraith ym mis Medi 2025,⁷ ar ôl i'r Arglwydd Ganghellor ei chyflwyno gerbron Senedd y DU. Mae'r 14eg Raglen yn nodi deg prosiect newydd sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau, fel atebolrwydd am gynnyrch, gwneud penderfyniadau awtomataidd yn y sector cyhoeddus, rheoli ystadau tai ac amddiffyn gorffwylltra mewn cyfraith trosedd. Y prosiectau hynny, ynghyd â phrosiectau presennol ac, rydym yn rhag-weld, prosiectau yn y dyfodol sy'n deillio o atgyfeiriadau gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, fydd asgwrn cefn ein gwaith dros y blynyddoedd nesaf.

Datblygwyd y 14eg Raglen yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus helaeth, i sicrhau bod ein gwaith mor berthnasol, cyfoes a gwybodus â phosib. Cafwyd tua 500 o ymatebion i'r ymgynghoriad, ac awgrymwyd bron i 200 o bynciau gwahanol. Dewiswyd prosiectau i'w cynnwys yn y 14eg Raglen yn dilyn dadansoddiad trylwyr o feysydd diwygio posib ac ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid.

Rydym yn hyderus bod y gwaith rydym wedi ymrwmo i'w wneud yn y 14eg Raglen yn gyfle i wella a diwygio'r gyfraith yn sylweddol, yn ogystal â bywydau a busnesau'r rhai sy'n ei defnyddio ac yn dibynnu arni, yn ogystal â chyfrannu at welliannau ehangach mewn cymdeithas a thwrf economaidd.

Mesur Llwyddiant

Mae gweithredu ein hargymhellion ar gyfer diwygio yn amlwg yn ddangosydd pwysig o lwyddiant Comisiwn y Gyfraith. Mae hyn yn cael sylw manwl yn Rhan Tri yr adroddiad hwn.

Fodd bynnag, nid yw gweithredu'n dangos ehangder ein heffaith yn llawn. Mewn ymdrech i asesu ein heffaith a'n dylanwad, rydym yn nodi

achosion lle mae Comisiwn y Gyfraith yn cael ei ddyfynnu mewn dyfarniadau neu yn ystod busnes yn Nhŷ'r Cyffredin ac yn Senedd Cymru. Yn ystod y cyfnod adrodd, mae enw'r Comisiwn yn ymddangos 195 o weithiau yn Hansard, yr adroddiad swyddogol ar drafodion Seneddol.

Mae ein gwaith hefyd yn cael ei ddyfynnu'n helaeth yn y cyfryngau ac mewn cyfnodolion academiaidd; rydym yn parhau i dynnu sylw pobl sydd â diddordeb yn y gyfraith ac effaith go iawn ei diwygio.

Mae asesiadau effaith yn parhau i fod yn rhan annatod o ymrwymiad Comisiwn y Gyfraith i sicrhau gwerth am arian. Maen nhw'n darparu fframwaith strwythuredig ar gyfer nodi ac asesu costau, manteision ac effeithiau ehangach a allai gael eu hanwybyddu fel arall, gan sicrhau bod gan Weinidogion a Senedd y DU ddealltwriaeth glir o oblygiadau diwygio. Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026, roedd asesiadau effaith yn cefnogi nifer o brosiectau a gwblhawyd ar draws ein rhaglen, gan ein galluogi i gyflwyno argymhellion cynnil sy'n seiliedig ar lawer o dystiolaeth. Yn ein gwaith ar y prosiect moderneiddio'r gyfraith ewyllysiau, roedd yr asesiad effaith cysylltiedig yn gwerthuso sut gallai ein hargymhellion i ddiwygio'r gyfraith alluogi mwy o bobl i wneud ewyllysiau, diogelu ewyllyswyr rhag cam-drin ariannol a sicrhau bod dymuniadau ewyllysiol pobl yn cael eu gwireddu. Roedd y dadansoddiad yn helpu i ddangos manteision posib mwy o sicrwydd a hyblygrwydd cyfreithiol, ochr yn ochr â'r mesurau diogelu sydd eu hangen i amddiffyn unigolion agored i niwed. Fe wnaeth ein hasesiad elwa o dystiolaeth a gasglwyd yn ystod ymgynghoriad cynhwysfawr a oedd yn cryfhau'r achos dros ddiwygio ac yn sicrhau bod effeithiau economaidd ac effeithiau cymdeithasol ehangach yn cael eu hystyried yn llawn.

⁷ Pedwaredd Raglen Diwygio'r Gyfraith ar Ddeg, Comisiwn y Gyfraith Rhif 421.

Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru

Wrth weithio ar ddiwygio meysydd o'r gyfraith sydd wedi'u datganoli i'r Senedd, mae Comisiwn y Gyfraith yn gweithredu fel Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru. Penllanw ein cefnogaeth i Lywodraeth Cymru wrth iddi weithredu ein hadroddiad ar gyfraith cynllunio yng Nghymru eleni oedd pasio Deddf Cynllunio (Cymru) 2026. Ym mis Medi 2025, rhoddodd yr athro Alison Young, Comisiynydd Cyfraith Gyhoeddus a'r Gyfraith yng Nghymru, dystiolaeth i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wrth graffu ar Fil Cynllunio (Cymru). Wrth drafod y bil cyn y bleidlais derfynol yn y Senedd, cydnabyddodd y Cwnsler Cyffredinol gyfraniad adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar gyfraith cynllunio yng Nghymru. Nododd hefyd y berthynas waith gadarn rhwng y Comisiwn a Llywodraeth Cymru, a'u hymrwymiad ar y cyd i resymoli ac i foderneiddio'r gyfraith yng Nghymru.

Rydym wedi parhau i ymgysylltu'n ehangach yng Nghymru, gan gynnwys drwy gymryd rhan yng nghynhadledd Cymru'r Gyfraith ym mis Hydref 2025 lle rhoddodd ein Cadeirydd araith ar ddathlu 60 mlynedd ers sefydlu Comisiwn y Gyfraith a diwygio'r gyfraith yng Nghymru yn gyffredinol. Mae'r Cadeirydd yn aelod ex officio o Weithrediaeth Cyngor Cyfraith Cymru. Fe wnaethom gynnull dau gyfarfod Pwyllgor Cyngori Cymru, lle cefnogwyd trafodaeth ar faterion diwygio'r gyfraith yng Nghymru gan ein cyd-gynullwyr sydd newydd gael eu penodi i'r Pwyllgor, sef Canolfan Llywodraethiant Cymru. Yn ein cyfarfod ym mis Chwefror 2026, fe wnaethom gyhoeddi penodiad Dr Nerys Llewelyn Jones fel Cwnsler Arbennig i Gymru, swydd uwch newydd gyda'r nod o gryfhau presenoldeb y Comisiwn yng Nghymru a'n gweledd a'n perthnasedd wrth sefydlu Senedd estynedig eleni. Hefyd, arweiniodd yr Athro Alison Young gyflwyniadau am ein gwaith diwygio'r gyfraith yng Nghymru i uwch arweinwyr yn Llywodraeth Cymru, yn ogystal â Phwyllgor Cymru Cymdeithas y Gyfraith.

Rhan Dau:

Adolygiad o'n gwaith yn 2025-26

Cyfraith Fasnachol a Chyffredin

Comisiynydd: Yr Athro Solène Rowan

Prosiect	Diweddariad	Dyddiad cyhoeddi	Tudalen
Cymdeithasau cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol	Dyddiad cyhoeddi'r papur ymgynghori	Medi 2024	Tudalen 11
Asedau digidol fel eiddo personol	Cafodd Deddf Eiddo (Asedau Digidol etc) 2025 Gydsyniad Brenhinol	Rhagfyr 2025	Tudalen 12
Asedau digidol a dogfennau masnach electronig ym maes cyfraith ryngwladol breifat	Dyddiad cyhoeddi'r papur ymgynghori	Mehefin 2025	Tudalen 12
Cymdeithasau cyfeillgar	Dyddiad cyhoeddi'r papur ymgynghori	Mawrth 2025	Tudalen 13
Atebolrwydd cynnyrch	Prosiect wedi dechrau	Medi 2025	Tudalen 13
Gwrthrychau mewn casgliadau amgueddfeydd	Wedi dechrau trafodaethau cychwynnol â rhanddeiliaid	Awst 2025	Tudalen 14

Cymdeithasau cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol

Mae cymdeithasau cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol yn fusnesau neu'n sefydliadau sy'n eiddo i'w haelodau ac yn cael eu rheoli ganddynt. Mae cymdeithasau cydweithredol yn bodoli i fodloni anghenion cyffredin eu haelodau, tra bo cymdeithasau budd cymunedol yn cael eu sefydlu er budd y gymuned ehangach. Mae'r ddau fath o gymdeithas yn gorfforaethau sydd ag endidau cyfreithiol ar wahân i'w haelodau ac maen nhw'n ddewisiadau amgen, er enghraifft, i gwmnïau, sy'n bodoli at ddibenion ar wahân i wobrwyo buddsoddwyr ariannol.

Mae cymdeithasau cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol yn cofrestru o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a

Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 ("Deddf CCBS") , sy'n nodi'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y cymdeithasau hyn. Mae'r gyfraith bresennol yn seiliedig ar ddeddfwriaeth gyfunol o'r 19eg ganrif ac mae angen ei moderneiddio.

Fe wnaethom gyhoeddi papur ymgynghori ym mis Medi 2024. Roedd ein cynigion ar gyfer diwygio yn cynnwys:

- Diffiniadau statudol newydd ar gyfer mentrau cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol, a rheoleiddio cymdeithasau budd cymunedol elusennol.
- Cynigion amrywiol sy'n ymwneud â chyfranddaliadau cymdeithasol, gydag amodau rhagnodedig ar gyfer tynnu a

throsoglwyddo, amddiffyniadau ar gyfer hawliau dosbarth ac wrth ostwng gwerth cyfranddaliadau, terfynau ar log sy'n daladwy ar gyfranddaliadau, yn ogystal â chadarnhad y gellir dyrannu cyfranddaliadau gyda hawliau amrywiol ac i fuddsoddwyr nad ydynt yn ddefnyddwyr.

3. Swyddogion y gymdeithas i'w rhestru ar Gofrestr Gyhoeddus Cwmnïau Cyfuddiannol, gyda statud i ragnodi dyletswyddau sy'n ddyledus gan swyddogion

Yn ogystal, aeth y papur i'r afael â rhestr hir o ddiwygiadau posib pellach, gan adlewyrchu'r ffaith nad yw rhannau o gyfraith cymdeithas wedi cael eu hadolygu'n systematig am ganrif a mwy.

Cawsom dros 240 o ymatebion i'r ymgynghoriad ac rydym wrthi'n dadansoddi'r ymatebion ac yn paratoi adroddiad terfynol a Bil drafft ar hyn o bryd. Ein nod yw cyhoeddi'r adroddiad a'r Bil drafft yn 2026.

Trysorlys EF yw'r adran sy'n noddi.

Asedau digidol fel eiddo personol

Caiff asedau digidol eu defnyddio ar gyfer amrywiaeth gynyddol o ddibenion – gan gynnwys fel pethau gwerthfawr ynddynt eu hunain, fel dull o dalu, neu i gynrychioli pethau neu hawliau eraill neu gael eu cysylltu â nhw – a hynny'n gynyddol.

Fe wnaethom gyhoeddi ein hadroddiad terfynol ar asedau digidol ym mis Mehefin 2023. Daethom i'r casgliad bod rhai mathau o asedau digidol – yn enwedig crypto-docynnau – yn gallu bod yn bethau y gall hawliau eiddo personol fod yn berthnasol iddynt, er nad ydynt yn cyd-fynd yn hawdd â'r categorïau traddodiadol o eiddo personol a'u bod yn cael eu hystyried yn well fel rhai sy'n perthyn i gategori ar wahân. Fe wnaethom argymhell deddfwriaeth i gadarnhau hyn. Fe wnaethom nifer o argymhellion eraill hefyd, gan gynnwys bod y Llywodraeth yn creu panel o arbenigwyr yn y diwydiant i roi arweiniad

ar faterion technegol a chyfreithiol sy'n ymwneud ag asedau digidol ac ar gyfer datblygu fframwaith statudol i hwyluso ffyrdd newydd o sicrhau diogelwch crypto-docynnau.

Ym mis Chwefror 2024, fe wnaethom ymgynghori ar ddeddfwriaeth ddrafft a fyddai'n gweithredu ein hargymhelliad “trydydd categori” uchod. Fe wnaethom gyhoeddi ein hargymhellion terfynol ar gyfer deddfwriaeth mewn adroddiad atodol ym mis Gorffennaf 2024.

Cafodd Bil sy'n adlewyrchu'r argymhellion hyn – Deddf Eiddo (Asedau Digidol etc) 2025 bellach – ei gyflwyno i Senedd y DU ym mis Medi 2024 o dan y weithdrefn seneddol arbennig ar gyfer biliau Comisiwn y Gyfraith. Cafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ym mis Rhagfyr 2025.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yw'r adran sy'n noddi.

Asedau digidol a dogfennau masnach electronig ym maes cyfraith ryngwladol breifat

Pan fydd y partion mewn anghydfod cyfraith breifat wedi'u lleoli mewn gwahanol wledydd, neu pan fydd y ffeithiau a'r materion sy'n arwain at yr anghydfod yn croesi ffiniau cenedlaethol, bydd cwestiynau'n codi sy'n ymwneud â chyfraith ryngwladol breifat. Yn llysoedd pa wledydd y dylai'r partion ymglyfreitha eu hanghydfod? Cyfraith pa wlad y dylid ei defnyddio i'w ddatrys?

Mae datblygiadau diweddar fel crypto-docynnau'n dibynnu ar dechnoleg cyfrifyfrau gwasgaredig (“DLT”), sy'n defnyddio rhwydwaith o gyfrifiaduron – sydd o bosib wedi'u lleoli ledled y byd – i gofnodi a storio data. Gall datblygiadau arloesol o'r fath herio'r rhagdybiaeth diriogaethol sy'n sail i egwyddorion cyfraith ryngwladol breifat.

Fe wnaethom gyhoeddi papur ymgynghori ym mis Mehefin 2025. Mae'n canolbwyntio'n bennaf ar gymwysiadau cwbl ddatganoledig DLT, sydd yn ôl ein canfyddiadau yn cyflwyno heriau newydd i reolau presennol cyfraith ryngwladol breifat.

1. Yng nghyd-destun awdurdodaeth ryngwladol, rydym yn ystyried sut gellir defnyddio'r pyrrh awdurdodaethol presennol ar gyfer eiddo a chamwedd yng nghyd-destun ymglyfreitha crypto. Rydym yn cynnig creu gorchymyn gwybodaeth annibynnol newydd i helpu hawlwyrs sydd wedi colli crypto-docynnau drwy dwyll neu hacio.
2. Yng nghyd-destun cyfraith berthnasol, awgrymwn, lle nad yw'n bosib i'r llysoedd nodi un gyfraith berthnasol, y dylent ystyried amrywiaeth o ffactorau i benderfynu ar ganlyniad cyfiawn i'r anghydfod, gan gynnwys disgwyliadau dilys y partion.
3. Rydym hefyd yn gwneud cynigion i foderneiddio adran 72 o Ddeddf Biliau Cyfnewid 1882, darpariaeth cyfraith ryngwladol breifat sy'n nodi'r gyfraith sy'n berthnasol i faterion cytundebol penodol sy'n codi mewn cysylltiad â biliau cyfnewid a nodiadau addewidiol.

Rydym yn dadansoddi ymatebion ac yn gweithio tuag at gyhoeddi adroddiad terfynol yn 2026.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yw'r adran sy'n noddi.

Cymdeithasau cyfeillgar

Mae cymdeithas gyfeillgar yn sefydliad sy'n darparu yswiriant neu fuddion eraill i'w haelodau, a ariennir gan ei haelodau. Wrth ddarparu cynlluniau cydgyfnewigaeth, gall cymdeithasau cyfeillgar gyflawni diben masnachol pwysig, yn enwedig o ran meithrin amrywiaeth gorfforaethol economaidd a chynhwysiant ariannol. Maen nhw'n tanysgrifio i fodel cyd-berchnogaeth, sy'n golygu eu bod yn eiddo i'w haelodau ac mae'r elw'n cael ei ail-fuddsoddi er budd yr aelodau. Nid oes cyfranddallwyr na buddsoddwyr allanol.

Mae'r prosiect hwn yn adolygu Deddf Cymdeithasau Cyfeillgar 1974 ("Deddf 1974") a Deddf Cymdeithasau Cyfeillgar 1992 ("Deddf 1992"). Gofynnwyd i ni adolygu'r Deddfau hyn i

sicrhau eu bod yn cyd-fynd â natur ac anghenion cymdeithasau cyfeillgar, ac i sicrhau bod y rheoliad yn gymesur ac yn sicr yn ôl y disgwyl.

Fe wnaethom gyhoeddi papur ymgynghori ym mis Medi 2025. Nod llawer o'n cynigion yw gwneud y drefn statudol yn fwy modern ac effeithlon, ar ffurf diweddariadau technegol. Rydym hefyd yn ystyried amrywiaeth o faterion eraill i gefnogi twf y sector, gan gynnwys:

1. Ffyrdd o gael gafael ar gyfalaf allanol.
2. Amddiffyn yn erbyn datgydfuddiannu.
3. Creu proses fwy effeithlon ar gyfer trosglwyddo ymrwymadau busnes.

Rydym yn dadansoddi ymatebion ac yn gweithio tuag at gyhoeddi adroddiad terfynol, gyda deddfwriaeth ddrafft, ganol 2026.

Trysorlys EF yw'r adran sy'n noddi.

Atebolrwydd cynnyrch

Mae bron i 50 mlynedd wedi mynd heibio ers cyhoeddi adroddiad cyntaf Comisiwn y Gyfraith ar Atebolrwydd am Gynhyrchion Diffygiol, a bron i 40 mlynedd ers cyflwyno'r drefn atebolrwydd cynnyrch, a nodir yn Rhan 1 o Ddeddf Diogelu Defnyddwyr 1987. Nod y drefn honno oedd sicrhau cydbwysedd rhwng (1) rhoi llwybr syml i ddefnyddwyr hawlio iawndal am niwed a achosir gan gynnyrch diffygiol a (2) cefnogi busnes drwy alluogi arloesi a thwf.

Ers cyflwyno'r ddeddfwriaeth, mae'r amrywiaeth o gynnyrch sydd ar gael - yn enwedig yng nghyd-destun technoleg ddigidol - wedi datblygu'n sylweddol. Mae dyfodiad llwyfannau ar-lein hefyd wedi newid yn sylweddol sut mae defnyddwyr yn prynu cynnyrch. Mae pryderon nad yw'r drefn atebolrwydd cynnyrch wedi datblygu ar yr un cyflymder â datblygiadau o'r fath. Rydym hefyd wedi clywed nad yw'r ddeddfwriaeth, ar adegau, wedi darparu llwybr syml at hawlio iawndal a'i bod wedi bod yn anodd dwyn hawliadau llwyddiannus oddi tani.

Mae'r prosiect hwn yn ystyried gweithrediad y drefn bresennol ar gyfer atebolrwydd cynnyrch i benderfynu pa gyfraith y gallai fod angen ei diwygio i sicrhau bod y drefn atebolrwydd cynnyrch yn addas i'r diben

Dechreuodd gwaith sylweddol ar y prosiect hwn ym mis Medi 2025. Rydym wedi cyhoeddi holiadur anffurfiol yn gofyn i randdeiliaid am y materion sy'n ymwneud â'r drefn bresennol. Ein nod yw cyhoeddi papur ymgynghori gyda chynigion ar gyfer diwygio yn ystod hydref 2026.

Noddir y prosiect gan yr Adran Busnes a Masnach.

Gwrthrychau mewn casgliadau amgueddfeydd

Mae amgueddfeydd yn wynebu problemau sylweddol wrth ddelio â gwrthrychau lle, o ganlyniad i gofnodion caffael gwael neu ddim cofnodion o gwbl (gan ddyddio o adeg pan nad oedd cofnodion yn cyrraedd safonau modern, a dim ond ar bapur y gellid eu cadw beth bynnag), mae'r teitl cyfreithiol yn ansicr neu mae'r perchnogion yn anhysbys neu ni ellir dod o hyd iddynt. Y canlyniad yw y gallai amgueddfeydd fod yn ansicr ynghylch yr hyn y mae ganddynt hawl i'w wneud gydag eitemau o'r fath, gan gynnwys a ellir arddangos, atgyweirio neu drosglwyddo'r eitemau i amgueddfa arall neu, mewn achosion priodol, gael gwared arnynt. Gall hyn greu draen cudd ar adnoddau amgueddfa.

Bydd y prosiect hwn yn adolygu'r problemau hyn gyda golwg ar ddarparu rheolau cyfreithiol clir ynghylch sut mae gwrthrychau'n cael eu dal a sut gellir delio â nhw. Byddai rheolau o'r fath yn helpu i dawelu meddwl darpar roddwyr, a fydd â gwell dealltwriaeth o'r hyn y gellir ac na ellir ei wneud gyda'u rhodd. Yn yr un modd, bydd y rhai sy'n gyfrifol am gasgliadau amgueddfeydd yn gallu rheoli eu casgliadau'n fwy effeithiol heb orfod ceisio cyngor cyfreithiol arbenigol drud yn gyntaf i ganfod y rheolau cyfreithiol perthnasol neu

wynebu costau storio diangen ar gyfer eitemau sydd heb werth diwylliannol neu dreftadaeth parhaus.

Roedd y prosiect hwn yn rhan o'n 13eg Raglen Diwygio'r Gyfraith. Rydym wedi dechrau cynnal trafodaethau cwmpasu cychwynnol gyda rhanddeiliaid ac rydym yn gobeithio cyhoeddi papur ymgynghori yn 2027.

Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yw'r adran sy'n noddi.

Cyfraith Trosedd

Comisiynydd: Yr Athro Penney Lewis

Prosiect	Diweddariad	Dyddiad cyhoeddi	Tudalen
Dirmyg llys	Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol (Rhan 1)	Tachwedd 2025	Tudalen 15
Apeliadau troseddol	Dyddiad cyhoeddi'r papur ymgynghori	Chwefror 2025	Tudalen 16
Adolygu'r gyfraith lladdiadau	Cyhoeddwyd galwad am dystiolaeth	Awst 2025	Tudalen 17
Tystiolaeth mewn erlyniadau troseddau rhywiol	Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol	Gorffennaf 2025	Tudalen 18

Dirmyg llys

Mae “dirmyg llys” yn cyfeirio at ystod eang o ymddygiad sy’n rhwystro neu’n ymyrryd ar achos llys neu ar weinyddu cyfiawnder

Mae enghreifftiau’n cynnwys ymddygiad sy’n tarfu yn y llys, torri gorchymyn llys yn fwriadol, unigolyn yn gwrthod ateb cwestiynau’r llys os caiff ei alw fel tyst, neu ryddhau ffotograffau neu wneud sylwadau cyhoeddus ar ddatblygiadau yn y llys pan fydd cyfyngiadau adrodd ar waith.

Mae datblygiad cyfraith dirmyg llys wedi bod yn ansystematig, gan arwain at weithdrefn sy’n aml yn anhrefnus ac yn aneglur. Mae problemau’n codi o’r gwahaniaeth dryslyd rhwng dirmyg llys sifil a throseddol, y gwahanol ffyrdd y gellir cyflawni dirmyg llys, a’r gorgyffwrdd rhwng cyfraith dirmyg llys a throseddau sy’n ymwneud â gweinyddu cyfiawnder, megis gwyrddroi cwrs cyfiawnder. Mae pryderon cynyddol hefyd am effaith y cyfryngau cymdeithasol a datblygiadau technolegol eraill ar weinyddu cyfiawnder.

Gofynnodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Swyddfa’r Twrnai Cyffredinol i Gomisiwn y Gyfraith adolygu cyfraith dirmyg.

Ar 9 Gorffennaf 2024, fe wnaethom gyhoeddi papur ymgynghori a oedd yn cynnwys ein cynigion amodol, a oedd â’r nod o gynhyrchu cyfraith dirmyg sy’n haws ei deall, yn decach, ac sy’n gwarchod y broses o weinyddu cyfiawnder yn well.

Fe wnaeth y llofruddiaethau yn Southport ar 29 Gorffennaf 2024 a’r anhrefn dilynol yr haf hwnnw sbarduno ffocws dwys ac o’r newydd ar atebolrwydd dirmyg llys, yn benodol ar yr hyn y gellir ei ddweud ar ôl arestio unigolyn a amheuir. O ystyried budd y cyhoedd yn y materion hyn a’u pwysigrwydd, ar 3 Mawrth 2025 fe wnaethom gyhoeddi papur ymgynghori atodol byr.

Ym mis Tachwedd 2025, fe wnaethom gyhoeddi Rhan 1 ein Hadroddiad Terfynol ar Ddirmyg Llys sy’n mynd i’r afael ag atebolrwydd am ddirmyg a rôl y Twrnai Cyffredinol.

Rydym yn argymhell fframwaith newydd ar gyfer atebolrwydd dirmyg, a fyddai’n egluro ac yn codeiddio’r elfennau sy’n ofynnol i brofi dirmyg, ac yn taro cydbwysedd priodol rhwng yr hawliau a’r buddiannau y mae’r angen i weinyddu cyfiawnder yn effeithiol ac yn effeithlon yn effeithio arnynt.

Rydym yn argymhell y dylid dileu'r gwahaniaeth rhwng dirmyg troseddol a dirmyg sifil. Yn hytrach, rydym yn argymhell pedwar math o atebolrwydd dirmyg:

- dirmyg cyffredinol;
- dirmyg drwy dorri ymgymeriad neu orchymyn llys;
- dirmyg drwy gyhoeddi pan fydd achos yn weithredol;
- dirmyg drwy darfu ar achos.

Ar hyn o bryd, bydd achos yn dod yn weithredol pan fydd unigolyn a amheuir yn cael ei arestio, ond rydym yn argymhell na ddylid ystyried bod yr achos yn weithredol nes bydd yr unigolyn yn cael ei gyhuddo. O dan ein hargymhellion, ni fyddai'r prawf presennol yn newid: byddai atebolrwydd yn cael ei sefydlu lle mae cyhoeddiad yn creu risg sylweddol y bydd cwrs cyfiawnder yn yr achos dan sylw yn cael ei lesteirio neu ei ragfarnu'n ddifrifol.

Fodd bynnag, rydym yn cytuno ag ymgylngoreion a ddywedodd wrthym fod cyhoeddi rhai manylion – fel enw, oedran, cenedligrwydd ac ethnigrwydd unigolyn a amheuir – yn annhebygol yn gyffredinol o greu risg sylweddol y bydd cwrs cyfiawnder yn cael ei lesteirio neu ei ragfarnu'n ddifrifol.

Rydym hefyd yn gwneud cyfres o argymhellion mewn perthynas â rôl y Twrnai Cyffredinol mewn achos am ddirmyg. Er enghraifft, rydym yn argymhell y dylai'r Twrnai Cyffredinol gadw'r swyddogaeth dirmyg. Fodd bynnag, rydym hefyd yn argymhell y dylai penderfyniadau a wneir gan y Twrnai Cyffredinol fod yn destun adolygiad barnwrol.

Rydym o'r farn y dylai cydsyniad y Twrnai Cyffredinol barhau i fod yn ofynnol mewn achosion sy'n ymwneud ag atebolrwydd llym yn sgil dirmyg drwy gyhoeddi. Mae'n warchodaeth werthfawr i ryddid mynegiant sy'n cyfyngu ar nifer y ceisiadau dirmyg y gellir eu dwyn yn erbyn y cyfryngau neu gyhoeddwy'r eraill.

Bydd Rhan 2 yn cael ei chyhoeddi ddechrau 2027. Bydd yn mynd i'r afael â'r holl faterion sy'n weddill ac yn cynnwys Bil drafft.

Apeliadau Troseddol

Ym mis Gorffennaf 2022, gofynnodd y Llywodraeth i Gomisiwn y Gyfraith gynnal adolygiad o'r gyfraith sy'n ymwneud ag apeliadau troseddol.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae nifer o gyrff a sefydliadau blaenllaw – gan gynnwys Pwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin a Chomisiwn San Steffan ar Gamweinyddiadau Cyfiawnder – wedi dadlau bod angen diwygio'r gyfraith mewn perthynas ag apeliadau troseddol. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod y ffordd dameidiog y mae'r gyfraith wedi datblygu yn golygu bod anghysondebau, ansicrwydd a bylchau yn y gyfraith ar apeliadau troseddol.

Mynegwyd pryderon hefyd am y gofynion am dystiolaeth newydd a'r profion a ddefnyddir gan y Llys Apêl (Is-adran Droseddol) (CACD) a'r Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol (CCRC) – y corff sy'n gyfrifol am ymchwilio i achosion posib o gamweinyddu cyfiawnder, a chyfeirio'r achosion hynny'n ôl at y CACD. Mae rhai grwpiau wedi honni y gall y system bresennol ei gwneud yn anodd i bobl a gafwyd yn euog ar gam apelio lle'r oedd tystiolaeth difeiol ar gael ond heb ei defnyddio yn y treial, a / neu i gyrchu a dadansoddi tystiolaeth a allai awgrymu bod person yn ddieuog.

Mae adolygiad y Comisiwn o'r gyfraith sy'n llywodraethu apeliadau mewn achosion troseddol yn ystyried yr angen am ddiwygio gyda golwg ar sicrhau bod gan y llysoedd bwerau sy'n hwyluso'r broses o ddatrys apeliadau yn effeithiol, effeithlon a phriodol. Bydd hefyd yn ystyried a fyddai cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth bresennol ar apeliadau yn gwneud y gyfraith yn gliriach ac yn fwy cyson.

Mae'r adolygiad yn cynnwys pwerau'r CACD; pwerau'r Twrnai Cyffredinol i gyfeirio materion at y CACD; yr amodau ar gyfer caniatáu i'r CCRC gyfeirio at y CACD; y gwahanol fecanweithiau apelio o ganfyddiadau yn y llysoedd ynadon; a chyfreithiau sy'n ymwneud â chadw tystiolaeth a chofnodion achosion a mynediad atynt.

Ym mis Chwefror 2025, fe wnaethom gyhoeddi papur ymgynghori lle gwnaethom gynigion amodol ar gyfer diwygio. Mae'r rhain yn cynnwys:

1. Disodli'r prawf "posibilrwydd gwirioneddol" a ddefnyddir gan y CCRC wrth ystyried apêl yn erbyn euogfarn.
2. Gwneud y CCRC yn destun arolygiaeth annibynnol.
3. Disodli'r gofyniad presennol i'r sawl sydd wedi'i gael yn euog ar gam brofi ei fod yn ddieuog y tu hwnt i amheuaeth resymol er mwyn cael iawndal, fel y byddai'r rhai sy'n gallu profi eu bod yn ddieuog, ar sail tebygolrwydd, yn gymwys.
4. Symleiddio apeliadau i'r Uchel Lys mewn achosion diannod drwy ddiddymu'r weithdrefn "achosion datganedig".
5. Rhoi mwy o bwerau i lysoedd a'r CCRC ymchwilio i honiadau bod euogfarn yn anniogel oherwydd camymddwyn gan reithwyr.
6. Galluogi'r Goruchaf Lys i ystyried mwy o apeliadau, drwy ddileu'r gofyniad i ganiatâd y Llys Apêl am apêl gael ei ystyried gan y Goruchaf Lys. Rydym yn argymhell y dylid caniatáu i'r Goruchaf Lys ei hun roi caniatâd.

Roeddem hefyd wedi gofyn am safbwyntiau ynghylch a ddylid ehangu'r troseddau y gallai'r Twrnai Cyffredinol gyfeirio dedfryd at y CACD ar eu cyfer am fod yn rhy drugarog; a ddylid ymestyn y troseddau y gellid rhoi person ar brawf ar eu cyfer yn dilyn rhyddfarn ar sail tystiolaeth newydd; a ddylai fod yn gyfreithlon datgelu tystiolaeth a gafwyd o dan ddatgeliad cyn neu ar ôl treial lle'r oedd hyn at ddibenion newyddiaduraeth gyfrifol; ac a ddylid sefydlu Gwasanaeth Archif Fforensig Cenedlaethol i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am storio tystiolaeth o'r fath a ddefnyddir mewn treialon yn y tymor hir.

Rydym yn disgwyl cyhoeddi adroddiad terfynol yn 2026.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yw'r adran sy'n noddi.

Adolygu cyfraith lladdiadau (gan gynnwys amddiffyniadau ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig sy'n lladd y rhai sy'n eu cam-drin)

Roedd cyfraith lladdiadau yn destun adolygiad trylwyr gan Gomisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr ar ddechrau'r ganrif hon. Fe wnaethom gyhoeddi argymhellion ar gyfer diwygio amddiffyniadau rhannol i lofruddiaeth yn 2004. Cafodd llawer o'n hargymhellion eu rhoi ar waith yn Neddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009.

Fe wnaethom gyhoeddi argymhellion ar gyfer diwygio llofruddiaeth, dynladdiad a babanladdiad yn 2006. Penderfynodd y Llywodraeth ar y pryd beidio â gweithredu'r newidiadau a argymhellwyd gennym.

Yn yr 20 mlynedd ers i ni edrych ar lladdiadau ddiwethaf, mae'r problemau a nodwyd gennym gyda'r ffordd y mae troseddau lladdiad yn gweithio wedi aros yr un fath i raddau helaeth. Yn ein hadroddiad yn 2006, disgrifiwyd y gyfraith sy'n rheoli lladdiadau fel "strwythur ansefydlog wedi'i osod ar sylfeini sigledig. Mae rhai o'i rheolau wedi aros yr un fath ers yr ail ganrif ar bymtheg, er bod

cydnabyddiaeth ers tro fod gwir angen eu diwygio. Mae cynnwys rheolau eraill yn ansicr, yn aml oherwydd eu bod wedi cael eu newid yn gyson i'r pwynt na ellir eu nodi mwyach gydag unrhyw sicrwydd nac eglurder".⁸

Wrth i gymdeithas a'r gyfraith symud ymlaen, mae problemau newydd a chyfyngiadau posib gyda'r gyfraith bresennol wedi dod i'r amlwg. Mae'r rhain yn cynnwys gweithredu cyfraith menter ar y cyd, sut dylid adlewyrchu cyfrifoldeb lleiedig mewn unrhyw ddosbarthiad newydd o droseddau lladdiad, ac i ba raddau y mae'r gyfraith yn adlewyrchu dealltwriaeth fodern o effeithiau cam-drin domestig.

Ym mis Rhagfyr 2024, cytunodd y Comisiwn â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder y dylem ailedrych ar gyfraith lladdiadau. Rydym wedi cytuno i ailystyried a diweddarau ein hargymhellion o 2006, i ystyried amddiffyniadau ac amddiffyniadau rhannol i lofruddiaeth, yn enwedig gan fod diwygiadau 2009 wedi cael amser i ymsefydlu, ac i gynnal adolygiad llawn o'r fframwaith dedfrydu statudol ar gyfer llofruddiaeth.

Mae ein prosiect ar amddiffyniadau i lofruddiaeth ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth sy'n lladd y sawl sy'n eu cam-drin wedi cael ei gynnwys yn y prosiect ehangach ar laddiadau. Bydd hyn yn caniatáu i ni ystyried y mater hwn yn gyfannol, gan symud y tu hwnt i amddiffyniadau i ystyried y troseddau lladdiad eu hunain ar gyfer y grŵp hwn o ddiffynyddion. Ym mis Rhagfyr 2024, fe wnaethom gyhoeddi papur cefndir, yn crynhoi'r hyn y mae angen i ni ei ddeall am ddioddefwyr cam-drin domestig sy'n lladd y sawl sy'n eu cam-drin er mwyn dadansoddi sut mae'r gyfraith yn berthnasol, ac y dylai fod yn berthnasol, i'r grŵp hwn o ddiffynyddion.

Ym mis Awst 2025, fe wnaethom gyhoeddi Galwad am Dystiolaeth yn nodi cwmphas yr adolygiad ehangach o laddiadau ac yn gwahodd tystiolaeth gan randdeiliaid ar yr amrywiaeth o faterion y gallem eu hystyried yn y prosiect. Mae'r ymatebion a gawsom yn ein helpu i ddatblygu cynigion amodol ar gyfer diwygio. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein papur ymgynghori cyntaf, sy'n canolbwyntio ar droseddau lladdiadau, yn ystod haf 2026.

Tystiolaeth mewn Erlyniadau Troseddau Rhywiol

Canfu Adolygiad y Llywodraeth (End to End Rape Review) fod nifer yr achosion o dreisio a thrais rhywiol wedi aros yn gyson yn ystod y pum mlynedd diwethaf, ond bu gostyngiad sydyn yn nifer yr erlyniadau ers 2016/2017.

Mae rhai'n dadlau bod angen mwy o gymorth ar reithwyr i asesu tystiolaeth mewn perthynas â materion sensitif a heriol a allai fod y tu allan i'w profiad a'u dealltwriaeth eu hunain. Rydym yn ystyried a oes angen gwneud mwy yn ein llysoedd troseddol i fynd i'r afael â chamsyniadau.

Gofynnodd y Llywodraeth i Gomisiwn y Gyfraith archwilio'r broses dreial ac i ystyried y gyfraith, y canllawiau a'r ymarfer sy'n ymwneud â defnyddio tystiolaeth mewn erlyniadau am droseddau rhywiol. Fe wnaethom ystyried yr angen i ddiwygio er mwyn gwella dealltwriaeth o gydsyniad a niwed rhywiol a'r ffordd y caiff achwynwyr eu trin a sicrhau bod diffynyddion yn cael treial teg.

8 Llofruddiaeth, Dynladdiad a Babanladdiad (2006) Comisiwn y Gyfraith Rhif 304, paragraff 1.8.

Fe wnaeth y prosiect ystyried y dull presennol o fynd i'r afael â chamsyniadau yn ystod y broses dreial, gan gynnwys:

- defnyddio cyfarwyddiadau rheithgorau ac addysg rheithwyr yn gyffredinol;
- cyflwyno tystiolaeth arbenigol i fynd i'r afael â chamsyniadau ynghylch troseddau rhywiol;
- cyflwyno tystiolaeth o hanes rhywiol yr achwynydd;
- cyflwyno cofnodion personol yr achwynydd, gan gynnwys eu cofnodion meddygol a chwnsela;
- cyflwyno tystiolaeth o gymeriad y diffynnydd a'r achwynydd; a
- defnyddio mesurau arbennig yn ystod y treial.

Ym mis Mai 2023, fe wnaethom gyhoeddi papur ymgynghori lle gwnaethom gynigion amodol ar gyfer diwygio. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus a ddaeth i ben ar 29 Medi 2023. Fe wnaeth yr ymatebion a gawsom gan randdeiliaid ein helpu i lunio argymhellion ar gyfer diwygio, a gyhoeddwyd gennym ym mis Gorffennaf 2025.

Nod ein hargymhellion yw gwella dealltwriaeth o gydsyniad a niwed rhywiol; gwella sut caiff achwynwyr eu trin; a sicrhau bod diffynnyddion yn cael treial teg. Un mater sy'n arbennig o niweidiol i dreial teg ac effeithiol ar gyfer troseddau rhywiol yw'r risg y bydd mythau am dreisio yn treiddio drwy'r broses droseddol, gan ddylanwadu ar drafodaethau'r rheithgor. Mae mythau am dreisio yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio credoau dilys am drais rhywiol sy'n ffeithiol anghywir ac yn deillio o stereoteipiau. Mae'r adroddiad yn mynd i'r afael â'r risg honno.

Drwy gydol yr adroddiad rydym wedi ceisio lleihau'r risg o niwed diangen i achwynwyr, a diogelu eu hawliau preifatrwydd yn well. Rydym wedi bod yn ofalus i amddiffyn hawl y diffynnydd i dreial teg drwy sicrhau bod yr amddiffyniad yn gallu cyflwyno tystiolaeth sy'n berthnasol i'w achos heb ddibynnu ar fythau a chamsyniadau nac achosi trawma diangen i'r achwynydd. Rydym yn argymhell diwygio rheolau tystiolaeth a threfn i wella'r ffordd mae achwynwyr yn cael eu trin, i sicrhau bod y rheithgor yn gallu gwerthuso'r materion yn yr achos heb i fythau a chamsyniadau am drais rhywiol ddylanwadu arnynt, ac i sicrhau bod hawl y diffynnydd i dreial teg yn gallu cael ei harfer yn effeithiol ym mhob achos.

Ar 3 Rhagfyr 2025, cyhoeddodd y Llywodraeth gamau i ddiwygio'r gyfraith gan ddefnyddio rhai o'n hargymhellion. Mae'r diwygiadau hynny wedi'u cynnwys yn y Bil Llysoedd a Thribiwnlysoedd, a gafodd ei ddarllenid cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 25 Chwefror 2026.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yw'r adran sy'n noddi.

Cyfraith Eiddo, Teulu ac Ymddiriedolaeth

Comisiynydd: Yr Athro Lisa Webley

Prosiect	Diweddariad	Dyddiad cyhoeddi	Tudalen
Claddu, amlosgi a dulliau angladdol newydd	Adroddiad	Mawrth 2026	Tudalen 20
Tenantiaethau busnes: yr hawl i adnewyddu	Y papur ymgynghori cyntaf	Tachwedd 2024	Tudalen 21
Atebolrwydd atgyweirio canghellau a chofrestru	Papur Ymgynghori	Gorffennaf 2025	Tudalen 22
Lesddaliad Masnachol (is-brosiect 1)	Lansio'r prosiect	Ebrill 2026	Tudalen 22
Gofal gan berthynas	Lansio'r prosiect	Mehefin 2025	Tudalen 23
Rheoli Ystadau Tai	Lansio'r prosiect	Medi 2025	Tudalen 23
Tir Heb Berchennog	Lansio'r prosiect	Mawrth 2026	Tudalen 24
Hawliau a rhwymedigaethau sy'n ymwneud â dulliau angladdol, angladdau a gweddillion	Lansio'r prosiect	Ebrill 2026	Tudalen 25
Gwneud ewyllys	Adroddiad	Mai 2025	Tudalen 25

Claddu, Amlosgi a Dulliau Angladdol Newydd

Roedd ein 13eg Raglen Diwygio'r Gyfraith yn cynnwys prosiect o'r enw "Fframwaith Modern ar gyfer Gwaredu Cyrff Meirw". Yn dilyn cam cwmpasu, ym mis Tachwedd 2023, fe wnaethom gytuno ar gylch gorchwyl a oedd yn rhannu'r prosiect cyffredinol, o'r enw "Claddu, Amlosgi a Dulliau Angladdol Newydd", yn dri is-brosiect.

Mae'r is-brosiect ar "Ddulliau Angladdol Newydd" yn cael ei gynnal gan y Tîm Cyfraith Gyhoeddus. Mae'n ystyried beth allai fframwaith rheoleiddio priodol fod ar gyfer dulliau newydd sydd eisoes ar waith mewn awdurdodaethau eraill, megis hydrolysis alcalïaidd a chompostio dynol, yn ogystal â'r rhai a allai godi yn y dyfodol.

Mae'r is-brosiect ar Gladdu ac Amlosgi yn cael ei gynnal gan y tîm Cyfraith Eiddo, Teulu ac Ymddiriedolaeth. Cyhoeddwyd adroddiad mewn perthynas â'r is-brosiect hwnnw ym mis Mawrth 2026. Mae'r adroddiad yn cynnwys tua 60 o argymhellion i ddiwygio'r gyfraith.

Mae'r argymhellion allweddol a wnaed yn yr adroddiad yn cynnwys y canlynol:

1. Am y tro cyntaf, sicrhau bod safonau gofynnol priodol ym mhob claddfa ar sut dylid cynnal a chadw'r gladdfa, claddu cyrff, cyhoeddi hawliau claddu, a chadw cofnodion. Dylai pob gweithredwr claddfeydd, yn hytrach na dim ond rhai, allu gwneud cais, os ydynt yn dymuno gwneud hynny, am bwerau i'w galluogi i ddileu hawliau claddu mewn beddau, ac aildddefnyddio beddi. Byddai hynny'n amodol ar gynnal ymgynghoriad cyhoeddus a mesurau diogelu llym ynghylch gofynion hysbysiadau, gwrthwynebiadau gan berthnasau a deiliaid hawliau, a chyfnod o 100 mlynedd cyn y gellid aildddefnyddio bedd.
2. Mesurau diogelu newydd mewn perthynas ag amlosgfeydd, fel rheolau a fydd yn diogelu rhag amlosgi ar gamgymeriad ac i sicrhau tryloywder mewn perthynas ag amlosgi uniongyrchol. Rydym hefyd yn gwneud argymhellion i fynd i'r afael â'r broblem o gannoedd ar filoedd o olion llwch hanesyddol sy'n cael eu dal gan drefnwyr angladdau, gan nad ydynt wedi cael eu casglu gan y rhai sy'n trefnu'r angladd.

Mae'r is-brosiect olaf, "Hawliau a Rhwymedigaethau sy'n Ymwneud ag Angladdau, Dulliau Angladdol a Gweddillion" wedi dechrau (gweler y cofnod ar wahân isod).

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yw'r adran sy'n noddi.

Tenantiaethau Busnes: yr hawl i adnewyddu

Mae Rhan 2 o Ddeddf Landlord a Tenant 1954 yn rhoi'r hawl i denantiaid busnes (o berchnogion caffis i gwmnïau sy'n defnyddio ffatrïoedd) adnewyddu eu tenantiaethau pan fyddai'r tenantiaethau fel arall yn dod i ben, gan ganiatáu iddynt aros yn eu heiddo. Gelwir yr hawl hon yn "ddiogelwch deiliadaeth".

Mae gan y rhan fwyaf o denantiaid busnes ddiogelwch deiliadaeth yn awtomatig, oni bai eu bod, cyn caniateir unrhyw les, yn cytuno â'u landlord na ddylai'r hawl i adnewyddu fod yn berthnasol. Er mwyn gwneud hynny (drwy broses a elwir yn "contractio allan") rhaid dilyn gwahanol ffurfioldebau.

Mae'r fframwaith cyfreithiol dros 70 oed ac mae dros 20 mlynedd wedi mynd heibio bellach ers y diweddariad sylweddol diwethaf. Yn ystod y cyfnod hwnnw, mae cyffredinolrwydd y rhyngrwyd a digwyddiadau mawr eraill, gan gynnwys argyfwng ariannol 2008 a phandemig COVID-19, wedi effeithio ar y farchnad lesddaliadau masnachol. Mae blaenoriaethau'r Llywodraeth hefyd wedi datblygu; er enghraifft, mae mwy o ffocws yn awr ar gynaliadwyedd amgylcheddol eiddo masnachol.

Rydym wedi clywed nad yw'r Ddeddf yn gweithio'n dda i denantiaid neu landlordiaid, gyda beirniadaeth yn cynnwys bod y gyfraith yn feichus, yn aneglur ac wedi dyddio. Mae'r prosiect yn cynnwys adolygiad eang o Ran 2 o Ddeddf Landlord a Tenant 1954.

Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei bapur ymgynghori cyntaf ym mis Tachwedd 2024. Yn y papur ymgynghori hwnnw gofynnwyd cwestiynau allweddol ynghylch pa fodel diogelwch deiliadaeth sy'n briodol ac ynghylch cwrpas y Ddeddf.

Ar 4 Mehefin 2025, cyhoeddodd y Comisiwn ddatganiad interim yn nodi ei gasgliadau amodol mewn perthynas â'r materion a godwyd yn yr

ymgyngoriad cyntaf. Mae'n werth nodi bod y Comisiwn wedi dod i'r casgliad amodol y dylai'r model contractio allan presennol barhau.

Mae Comisiwn y Gyfraith yn rhag-weld y bydd yn cyhoeddi ei ail bapur ymgynghori yn ystod gwanwyn 2026.

Yr adran sy'n noddi yw'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Atebolrwydd Atgyweirio Canghellau a Chofrestru

Mae atebolrwydd atgyweirio canghellau yn rhwymedigaeth ar dirfeddiannwr i dalu am waith atgyweirio penodol i eglwys leol. Mae'n deillio o gyfraith eglwysig cyn y Diwygiad, ac anaml y caiff ei gorfodi, ond gall atebolrwydd fod yn fawr pan gaiff ei gorfodi. Bwriad Deddf Cofrestru Tir 2002 oedd na ddylai atebolrwydd atgyweirio canghellau rwymo prynwyr tir cofrestredig o 13 Hydref 2013 ymlaen, oni bai fod yr atebolrwydd wedi'i gofnodi yn y gofrestr.

Fodd bynnag, ers i Ddeddf 2002 ddod i rym, mae cwestiwn wedi codi ynghylch statws cyfreithiol atebolrwydd atgyweirio canghellau, ac a allai prynwyr tir, serch hynny, gael eu rhwymo gan rwymedigaethau heb eu cofrestru er gwaethaf y Ddeddf honno.

O ganlyniad, mae prynwyr tai a phrynwyr tir eraill yn gwario miliynau bob blwyddyn ar chwiliadau ac yswiriant i helpu i amddiffyn eu hunain rhag costau annisgwyl. Yn ogystal, dim ond tir cofrestredig y mae Deddf 2002 yn ei reoli. Gall prynwyr tir heb ei gofrestru gael eu rhwymo o hyd gan rwymedigaethau atgyweirio canghellau annisgwyl ac annarganfyddadwy.

Dechreuodd y prosiect ym mis Medi 2024 a chyhoeddwyd papur ymgynghori ym mis Gorffennaf 2025. Roedd y papur ymgynghori:

1. yn archwilio hanes cyfreithiol cymhleth atebolrwydd atgyweirio canghellau;

2. yn nodi cynnig amodol i newid y gyfraith i egluro nad yw prynwyr tir yn rhwym wrth atebolrwydd atgyweirio canghellau oni bai eu bod wedi'u cofrestru, ac felly'n weladwy i brynwyr; ac
3. yn cynnwys deddfwriaeth ddrafft i roi'r cynnig amodol ar waith.

Mae gan waith Comisiwn y Gyfraith y potensial i helpu i osgoi'r angen i brynwyr gynnal chwiliadau atgyweirio canghellau, neu i dalu am yswiriant diangen – gan arbed miliynau o bosib.

Mae Comisiwn y Gyfraith yn dadansoddi'r ymateb i'w ymgynghoriad a bydd yn cyhoeddi adroddiad gyda'i argymhellion terfynol maes o law.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yw'r adran sy'n noddi.

Lesddaliad Masnachol (is-brosiect 1)

Mae ein prosiect, Tenantiaethau Busnes: yr Hawl i Adnewyddu (gweler y cofnod ar wahân uchod), yn mynd i'r afael ag un agwedd ar gyfraith lesddaliad masnachol. Mae'r prosiect hwn, sy'n cynnwys dau is-brosiect, yn ystyried rhannau eraill o dirwedd gyfreithiol lesddaliadau masnachol. Cafodd y prosiect ei gynnwys yn 14eg Raglen Diwygio'r Gyfraith Comisiwn y Gyfraith.

Ar hyn o bryd mae'r Comisiwn yn gweithio ar yr is-brosiect cyntaf, sef adolygiad sy'n canolbwyntio ar ddwy agwedd ar y gyfraith:

1. hawliau cynnig cyntaf o dan Ddeddf Landlord a Tenant 1987 (i'r graddau y mae'r gyfraith yn ymwneud â mangre fasnachol); a
2. Materion gyda Deddf Landlord a Tenant (Cyfamodau) 1995.

Mae'r ddwy agwedd ar y gyfraith rydym wedi clywed amdanynt yn achosi problemau sylweddol yn ymarferol i drafodion lesddaliad masnachol, gan greu rhwystrau i fusnesau, atal trafodion masnachol gadarn a gorfodi biwrocratiaeth ddiangen.

Rhagwelwn y byddwn yn cyhoeddi papur ymgynghori mewn perthynas â'r is-brosiect cyntaf yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn adrodd.

Nid yw'r ail is-brosiect wedi dechrau eto. Bydd yn brosiect cwmpasu, a fydd yn canolbwyntio ar y gyfraith sy'n rheoli'r gwaith o gynnal a chadw, atgyweirio ac uwchraddio adeiladau masnachol wedi'u lesio. Fel rhan o'r gwaith cwmpasu hwn, byddwn yn ystyried y gyfraith sy'n ymwneud â dadfeiliadau, taliadau gwasanaeth, a'r rhyngweithio rhwng fframweithiau amgylcheddol a chyfraith lesddaliad masnachol.

Yr adran sy'n nodi yw'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Gofal gan Berthynas

Disgrifiwyd gofal gan berthynas fel “Unrhyw sefyllfa lle mae plentyn yn cael ei fagu yng ngofal ffrind neu aelod o'r teulu nad yw'n rhiant iddo am gyfnod sylweddol o'r amser. Gall y trefniant fod dros dro neu yn y tymor hwy”.⁹

Amcangyfrifir bod 141,000 o blant yn byw mewn trefniadau gofal gan berthynas yng Nghymru a Lloegr. Yn fwyaf cyffredin, bydd gofal gan berthynas yn ddewis amgen yn hytrach na bod y plentyn yn mynd i'r system ofal, neu'n ffordd o ofalu am blentyn sy'n destun gorchymyn gofal. Mae'r amrywiaeth o ddulliau y gellir eu defnyddio i ffurfioli gofal gan berthynas, gan gynnwys drwy orchmynion gwarcheidiaeth arbennig, gorchmynion trefniadau plant a thrwy faethu, yn gymhleth i'w llywio ac yn ddryslyd i ofalwyr sy'n berthnasau, nad ydynt bob amser yn teimlo'n hyderus bod y gorchymyn sy'n sail i'w trefniant yn iawn ar gyfer eu hamgylchiadau.

Dechreuodd y prosiect hwn yn ffurfiol ym mis Mehefin 2025. Mae'n ystyried y cwmpas ar gyfer diwygio i symleiddio'r gorchmynion sydd ar gael i ofalwyr sy'n berthnasau, a sut i gefnogi'r gwaith o

ystyried gofal gan berthynas yn well fel opsiwn ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Mae Comisiwn y Gyfraith yn rhag-weld cyhoeddi papur ymgynghori yn ystod hanner cyntaf 2026.

Yr Adran Addysg yw'r adran sy'n nodi, ac mae'r prosiect hefyd yn cael ei gynnal gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru.

Rheoli Ystadau Tai

Gellir adeiladu ystadau tai lle mae'r datblygwr, neu gwmni rheoli cysylltiedig, yn cadw ffyrdd a rhannau cyffredin yr ystad. Gall yr ystadau hyn gynnwys cymysgedd o eiddo dan berchnogaeth rydd-ddaliadol a lesddaliadol, a gallant hefyd gynnwys cymysgedd o eiddo preswyl, busnes ac eiddo arall (fel mannau agored). Mae tai wedyn yn cael eu gwerthu ar yr amod y bydd perchnogion y tai yn talu tâl gwasanaeth i'r datblygwr neu'r cwmni rheoli am eu cynnal a'u cadw, ac weithiau am ddarparu gwasanaethau eraill.

O dan y gyfraith bresennol, mae gan breswylwyr ar ystadau tai rywfaif o bwerau i herio ffioedd gormodol ond nid oes ganddynt hawl i gymryd rheolaeth dros eu hystadau.

Bydd y prosiect hwn yn ystyried sut gellid rhoi mwy o reolaeth i breswylwyr dros reoli eu hystadau tai. Bydd yn ystyried a ellid addasu'r drefn hawl i reoli sy'n fuddiol i lesddeiliaid mewn blociau o fflatiau i fod yn berthnasol i ystadau tai. Mae'r Hawl i Reoli yn hawl dim bai y gellir ei harfer ni waeth a yw'r landlord wedi torri unrhyw un o'i rwymedigaethau rheoli ai peidio. Bydd y prosiect hefyd yn ystyried a oes angen unrhyw atebion ychwanegol neu amgen i broblemau rheoli ystadau o ganlyniad i'r gwahaniaethau rhwng blociau o fflatiau ac ystadau tai a'r gwahanol strwythurau perchnogaeth gyfreithiol dan sylw.

9 Yr Adran Addysg, Stable Homes, Built on Love: Implementation Strategy and Consultation (Chwefror 2023), t 85.

Bydd y prosiect yn adolygu sut byddai unrhyw gynllun newydd ar gyfer rheoli ystadau tai yn rhyngweithio â'r drefn Hawl i Reoli bresennol, ac â'r argymhellion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith yn ein Hadroddiad 2020, "Leasehold home ownership: exercising the right to manage".

Mae Comisiwn y Gyfraith yn rhag-weld y bydd yn cyhoeddi papur ymgynghori ddechrau 2027.

Noddir y prosiect gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Tir Heb Berchennog

Yng Nghymru a Lloegr, mae tir heb berchennog yn trosglwyddo i'r Goron. Os bydd cwmni cofrestredig yn y DU sy'n berchen ar dir yn cael ei ddiddymu, bydd y tir yn trosglwyddo i Gyfreithiwr y Trysorlys fel "bona vacantia" (hawl draddodiadol y Goron i nwyddau diberchennog). Mae gan Gyfreithiwr y Trysorlys bŵer i ymwrthod â'i deitl i'r tir. Hefyd, os bydd person neu gwmni sy'n berchen ar dir yn mynd yn ansolfent, mae gan ei ymddiriedolwr methdaliad neu ddiddymwr bŵer i ymwrthod â'i deitl i'r tir. Os ymwrthodir â theitl rhydd-ddaliad, mae'r tir yn dychwelyd ("asiedu") i'r Goron ac yn dod yn rhan o Ystad y Goron. (Mae'r rheolau sy'n llywodraethu tir heb berchennog fymryn yn wahanol lle mae'r tir yn rhan o ffiniau Dugaeth Cernyw neu Ddugaeth Caerhirfryn).

Pan fydd tir heb berchennog yn dychwelyd i'r Goron, credir nad yw Ystad y Goron yn gyffredinol atebol amdani fel arfer oni bai ei bod yn cyflawni gweithred adennill meddiant neu reolaeth. Fodd bynnag, nid yw'n glir beth sy'n cyfrif fel gweithred adennill meddiant neu reolaeth ddigonol. Rydym wedi clywed y gall ansicrwydd ynghylch pryd y gallai'r Goron fod yn atebol gyfrannu at rai o'r problemau a ddisgrifir isod.

Gall tir heb berchennog fod yn broblem, neu ddod yn broblem. Gall fod anawsterau hefyd o ran dod â'r tir yn ôl i ddefnydd proffidiol. Gall problemau godi pan fydd tir sy'n cynnwys adeiladau peryglus neu beryglon amgylcheddol yn mynd yn dir heb berchennog. Clywsom hefyd, yn absenoldeb tirfeddiannwr sy'n rheoli'r tir yn weithredol, y gall problemau ar y tir fynd yn fwy difrifol. Gall ymwrthod â rhydd-ddaliad hefyd gael effaith niweidiol ar lesddeiliaid, yn enwedig mewn blociau o fflatiau. Gall olygu nad oes modd gwerthu'r fflatiau ac nad oes modd eu morgeisio.

Yn fwy cyffredinol, mae'r gyfraith sy'n rheoli tir heb berchennog yn hen ffasiwn ac yn ddryslyd.

Mae'r prosiect hwn yn adolygiad o gyfraith bona vacantia a fforffedau. Bydd yn adolygu gwarchodaeth atebolrwydd y Goron ar gyfer tir heb berchennog. Bydd yn ystyried a ddylai rhai mathau o dir heb berchennog gael eu trosglwyddo i gorff ar wahân i'r Goron, neu gael eu rheoli ganddynt, ac yn adolygu pwerau rhai partïon i gael gorchmynion breinio. Bydd y prosiect yn archwilio hawliau lesddeiliaid lle mae teitl y landlord yn cael ei asiedu. Bydd y prosiect hefyd yn ceisio egluro'r gyfraith, gan fynd i'r afael â goroesiad buddiannau deilliadol sy'n effeithio ar dir heb berchennog ac effaith bona vacantia ac asiedu ar y system cofrestru tir.

Noddir y prosiect gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Hawliau a Rhwymedigaethau sy'n Ymwneud â Dulliau Angladdol, Angladdau a Gweddillion

Mae'r prosiect hwn yn rhan o adolygiad eang o Gladdu, Amlosgi a Dulliau Angladdol Newydd (gweler y cofnod ar wahân uchod).

Ar hyn o bryd, nid yw'r penderfyniadau y mae person yn eu gwneud am yr hyn sy'n digwydd i'w gorff ar ôl iddo farw yn gyfrwymol, er y gellir rhoi rhywfaint o bwys iddynt. Mae'r gyfraith bresennol ynghylch pwy sydd â'r hawl i wneud penderfyniad am gorff person ymadawedig yn seiliedig ar y gyfraith ynghylch delio ag eiddo'r ymadawedig, ac nid yw'n gysylltiedig â'r rheolau ynghylch pwy all wneud cais am amlosgi neu gladdu.

Bydd y prosiect hwn yn ystyried a ddylid gwneud penderfyniadau a wneir cyn marwolaeth yn gyfrwymol, a bydd yn edrych ar y gwahanol ffyrdd y gellid eu rhoi ar waith. Bydd hefyd yn ystyried pwy ddylai gael yr hawl i wneud penderfyniadau am gorff a'r angladd, sut dylid datrys anghydfodau, a phwy sy'n gyfrifol am wneud trefniadau ar gyfer corff ar ôl marwolaeth.

Bydd y prosiect hefyd yn ystyried statws cyfreithiol gweddillion dynol, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu creu o ganlyniad i ddulliau angladdol newydd ac yn ystyried y safonau sy'n berthnasol i angladdau iechyd y cyhoedd.

Dechreuodd y prosiect ym mis Ebrill 2026.

Noddir y prosiect gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Gwneud Ewyllys

Ffrwyth oes Fictoria yn bennaf yw'r gyfraith sy'n llywodraethu ewyllysiau, ac mae'r Ddeddf Ewyllysiau bron yn 200 mlwydd oed. Roedd ein prosiect yn adolygiad cyffredinol o'r maes pwysig hwn o'r gyfraith i sicrhau ei fod yn dal yn addas i'r diben yn y gymdeithas fodern.

Fe wnaethom gyhoeddi adroddiad, "Moderneiddio Cyfraith Ewyllysiau", ym mis Mai 2025. Mae'r adroddiad yn cynnwys dwy gyfrol:

1. Mae Cyfrol I yn cynnwys ein hargymhellion ar gyfer diwygio; ac
2. Mae Cyfrol II yn cynnwys ein Bil drafft ar gyfer Deddf Ewyllysiau newydd a fyddai'n gweithredu ein hargymhellion ar gyfer diwygio deddfwriaethol, ynghyd â nodiadau esboniadol.

Mae'r adroddiad yn gwneud mwy na 30 o argymhellion i'r Llywodraeth, sy'n rhychwantu'r gyfraith sy'n llywodraethu ewyllysiau. Mae ein hargymhellion wedi'u hanelu'n bennaf at gefnogi rhyddid ewyllysïol, diogelu ewyllysyr (gan gynnwys rhag twyll a dylanwad amhriodol), a chynyddu eglurder a sicrwydd yn y gyfraith lle bo hynny'n bosib.

Ar y diwrnod y cyhoeddwyd ein hadroddiad, cyhoeddodd y Llywodraeth ymateb cychwynnol i'r argymhellion, lle'r oedd yn croesawu'r "adroddiad cynhwysfawr" ac yn cydnabod bod yr argymhellion yn "sylweddol ac eang eu cwrmpas". Dywedodd y Llywodraeth y "bydd yn gwneud cyhoeddiadau pellach maes o law, ar ôl iddi ystyried yr adroddiad yn haeddiannol fanwl".

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder oedd yr adran noddi.

Cyfraith Gyhoeddus a'r Gyfraith yng Nghymru

Comisiynydd: Yr Athro Alison Young

Prosiect	Diweddariad	Dyddiad cyhoeddi	Tudalen
Hygyrchedd Trafnidiaeth i Bobl Anabl	Prosiect wedi dechrau	Chwefror 2026	Tudalen 26
Adolygiad gweinyddol	Prosiect wedi'i oedi	Amh.	Tudalen 26
Cyfraith amaethyddol yng Nghymru	Cyhoeddwyd yr adroddiad cwrmpasu	Chwefror 2026	Tudalen 27
Ymreolaeth ym maes hedfan	Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol	Mai 2026	Tudalen 27
Pryniant gorfodol	Prosiect parhaus	Amh.	Tudalen 28
Gofal cymdeithasol i blant anabl	Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol	Medi 2025	Tudalen 28
Dulliau angladdol newydd	Prosiect parhaus	Mehefin 2025	Tudalen 29

Hygyrchedd Trafnidiaeth i Bobl Anabl

Mae'r prosiect newydd hwn yn deillio o bryderon a godwyd gan y Pwyllgor Dethol ar Drafnidiaeth bod y gyfraith sy'n rheoli hygyrchedd trafndiaeth i bobl anabl yn rhy gymhleth a darniog, a bod hyn yn llesteirio dyhead polisi o ddarparu mynediad cyfartal at drafnidiaeth i bobl anabl. Arweiniodd hyn at gyfeiriad Gweinidogol at brosiect ar y gyfraith sy'n llywodraethu hygyrchedd trafndiaeth i bobl anabl.

Bydd y prosiect yn ystyried sut i symleiddio a chyfnerthu'r gyfraith yn ogystal â chryfhau mecanweithiau gorfodi ac unioni. Bydd yn edrych ar sut i wreiddio profiadau pobl anabl mewn diwygiadau, a chefnogi cydlyniad deddfwriaethol

a rheoleiddiol ledled y DU. Bydd hefyd yn edrych ar ffyrdd y gall y gyfraith ddarparu ar gyfer datblygiadau technolegol yn y dyfodol.

Mae hwn yn brosiect 3 blynedd a disgwylir adroddiad arno ddechrau 2029.

Yr Adran Drafnidiaeth yw'r adran sy'n noddi.

Adolygiad Gweinyddol

Mae'r prosiect hwn yn ystyried y systemau mewnol a ddefnyddir gan gyrff gwneud penderfyniadau cyhoeddus i sicrhau eu bod yn gwneud y penderfyniadau cywir. Gellir galw'r rhain yn apeliadau mewnol neu'n ailystyriaethau – ac weithiau mae'r broses yn rhagofyniad ar gyfer

apeliadau ffurfiol gerbron tribiwnlys, neu adolygiad barnwrol.

Mae penderfyniadau adolygiadau gweinyddol yn pennu llawer mwy o hawliadau nawdd cymdeithasol a mewnfudo na llysoedd a thribiwnlysoedd, sy'n ystyried is-set fach o benderfyniadau yn unig. Er hynny, mae'r cyfraddau llwyddiant mewn apeliadau'n dal yn uchel iawn mewn rhai meysydd. Byddai ein hadolygiad yn ceisio nodi egwyddorion ar gyfer adolygiad gweinyddol effeithiol sy'n:

1. Hyrwyddo penderfyniadau cywir, y tro cyntaf.
2. Lleihau nifer yr apeliadau llwyddiannus gerbron tribiwnlysoedd a llysoedd.
3. Hyrwyddo dysgu sefydliadol a dolenni adborth cadarnhaol rhwng y prosesau barnwrol ffurfiol a phrosesau gwneud penderfyniadau mewnol.
4. Cynyddu hyder yn y broses o wneud penderfyniadau gweinyddol, gan gynnwys darparu ar gyfer y twf a ragwelir yn y defnydd o awtomeiddio i helpu i wneud penderfyniadau cyhoeddus.

Yn amodol ar gytuno ar gylch gorchwyl y prosiect, rydym yn disgwyl iddo ddechrau pan fydd adnoddau'n caniatáu.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yw'r adran sy'n noddi.

Cyfraith amaethyddol yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Gomisiwn y Gyfraith ystyried a ellid moderneiddio cyfraith amaethyddol yng Nghymru, ei symleiddio a'i gwneud yn fwy hygyrch drwy broses o godeiddio, a sut gellid gwneud hynny.

Mae codeiddio'n golygu dod â'r holl gyfraith ar bwnc penodol, fel amaethyddiaeth, at ei gilydd o dan god cyfraith. Yn ymarferol, gallai hyn olygu bod yr holl gyfraith amaethyddol yng Nghymru yn cael ei chyfuno'n un neu fwy o ddarnau o ddeddfwriaeth, a bod deddfwriaeth gydgrynhoi yn

cael ei nodi fel un sy'n ffurfio cod cyfraith ar gyfer amaethyddiaeth.

Mae amaethyddiaeth yn faes cyfraith datganoledig yng Nghymru. Roedd ein hadolygiad yn ystyried clytwaith o ddeddfwriaeth gan gynnwys cyfraith yr UE a gymathwyd, Deddfau Senedd Cymru a Deddfau Senedd y DU. Mae ein hadroddiad cwmpasu, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2026, yn nodi pa ddeddfwriaethau ddylai fod yn rhan o god cyfraith amaethyddol posib i Gymru yn y dyfodol. Mae hefyd yn tynnu sylw at y newidiadau technegol sydd eu hangen i symleiddio a moderneiddio'r gyfraith. Ar ben hynny, mae'n nodi'r materion y gallai fod angen eu hystyried ymhellach yng nghyd-destun datblygu cod cyfraith amaethyddol i Gymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn noddi'r prosiect hwn.

Ymreolaeth ym maes Hedfan

Noddir y prosiect ymreolaeth ym maes hedfan gan Her Hedfan y Dyfodol yn Ymchwil ac Arloesi y DU (UKRI) ac fe'i cefnogir gan Awdurdod Hedfan Sifil y DU (CAA) a'r Adran Drafnidiaeth (DfT). Mae'r prosiect yn ystyried y diwygiadau sydd eu hangen i ddarparu fframwaith cyfreithiol cadarn sy'n addas ar gyfer y dyfodol ac sy'n gallu cefnogi'r gwaith o ddefnyddio systemau awtomatiaeth uchel ac awtonomaidd yn ddiogel ym maes hedfan. Mae'n canolbwyntio ar dri achos defnydd: dronau (cerbydau nad ydynt yn cludo teithwyr, sy'n cael eu peilota o bell), Symudedd Awyr Uwch (fel cerbydau codi a glanio fertigol trydanol sy'n darparu teithiau byr i hyd at ddeg o bobl), a Gwasanaethau Rheoli Traffig Awyr a Llywio Awyr (ATM/ANS).

Dechreuodd y prosiect ddiwedd 2022 drwy adolygu'r ddeddfwriaeth bresennol i ganfod unrhyw rwystrau, bylchau neu ansicrwydd deddfwriaethol. Fe wnaethom gyhoeddi papur ymgynghori ddechrau mis Chwefror 2024, a phapur ymgynghori arall ym mis Ebrill 2025. Cyhoeddwyd ein hadroddiad terfynol ym mis Mai 2026.

Yr adran sy'n noddi yw'r Adran Drafnidiaeth, ar y cyd â'r Awdurdod Hedfan Sifil.

Prynu Gorfodol

Mae gallu awdurdodau cyhoeddus i brynu tir gan ddefnyddio pwerau gorfodol yn hanfodol i weithredu prosiectau ar raddfa fawr i wella seilwaith lleol a chenedlaethol, i gefnogi adfywio trefi a dinasoedd, ac i ddarparu tai. Ond gall caffael eiddo'n orfodol gael effaith niweidiol sylweddol ar yr unigolion a'r busnesau yr effeithir arnynt.

Felly, mae gweithdrefnau prynu gorfodol, a'r iawndal sy'n daladwy i'r rhai yr effeithir arnynt, yn cael eu rheoli'n dynn gan gyfreithiau sy'n dyddio'n ôl i oes Fictoria. Ond mae'r gyfraith honno'n dameidiog, yn anhygyrch ac mae angen ei moderneiddio.

Cafodd adroddiadau 2003 a 2004 Comisiwn y Gyfraith dderbyniad ffafriol iawn, ond ni chawsant eu gweithredu'n llawn. Mae rhai argymhellion wedi cael eu rhoi ar waith drwy gyfraith achosion, neu drwy newidiadau deddfwriaethol ers hynny. Ond mae galwadau am gyfreithiau cynhwysfawr, syml a modern wedi parhau.

Mae ein hadolygiad yn edrych ar y gyfraith bresennol sy'n rheoli'r weithdrefn ar gyfer prynu gorfodol, ac iawndal. Ei brif nod yw symleiddio'r gyfraith, gan wneud newidiadau technegol gyda'r bwriad o gyfuno, symleiddio a moderneiddio'r deddfwriaeth.

Fe wnaethom gyhoeddi papur ymgynghori ym mis Rhagfyr 2024, a'n nod yw cynhyrchu adroddiad a Bil drafft yn ystod hanner cyntaf 2027. Bydd ein hadroddiad terfynol yn gwneud argymhellion sy'n ymwneud â gweithdrefnau ac iawndal. Bydd y bil drafft cysylltiedig yn darparu ailddatganiad, sy'n cydgrynhoi ac yn diwygio'r gyfraith sy'n rheoli iawndal ar gyfer prynu gorfodol.

Yr adran sy'n noddi yw'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Gofal Cymdeithasol i Blant Anabl

Rheolir y gyfraith ar ofal cymdeithasol i blant anabl yn Lloegr gan glytwaith o ddeddfwriaeth, rhai ohonynt yn dyddio'n ôl dros bum degawd. Mae hyn wedi cyfrannu at anghysondeb yn lefel ac ansawdd y cymorth a ddarperir gan awdurdodau lleol, a llwybrau diangen o gymhleth at gael gafael ar gymorth i rieni a phobl sy'n rhoi gofal i blant anabl.

Cafodd yr adolygiad hwn ei sefydlu yn dilyn argymhelliad yn yr Adolygiad Annibynnol o Ofal Cymdeithasol Plant yn 2022, sy'n sail i gynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer diwygio'r maes gofal cymdeithasol i blant. Bydd ein prosiect yn adolygu'r clytwaith o ddeddfwriaeth sy'n rheoli gofal cymdeithasol ar gyfer plant anabl ar hyn o bryd, gan gynnwys adran 17 o Ddeddf Plant 1989 ac adran 2 o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970. Ein nod cyffredinol yw symleiddio a chryfhau'r gyfraith, gan sicrhau bod y system yn deg ac yn gweithio i blant, rhieni a phobl eraill sy'n darparu gofal, ac awdurdodau lleol. Rydym yn canolbwyntio ar ddarparu cymorth a gwasanaethau mewn gofal teuluol, ond byddwn hefyd yn ceisio sicrhau bod y gyfraith yn cyd-fynd â chyfraith gofal cymdeithasol yn ehangach, a moderneiddio'r deddfwriaeth.

Fe wnaethom gyhoeddi ein papur ymgynghori ym mis Hydref 2024, ac adroddiad terfynol ym mis Medi 2025.

Mae'r adran noddi, yr Adran Addysg, yn ystyried argymhellion yr adroddiad.

Dulliau Angladdol Newydd

Fel y nodwn mewn mannau eraill, (tudalen 20) yn ein 13eg Raglen Diwygio'r Gyfraith gwnaethom ddatgan nad yw'r gyfraith sy'n rheoli sut rydym yn delio â chyrff yr ymadawedig yn addas ar gyfer anghenion modern. Yn ogystal â materion yn ymwneud â chladdu ac amlosgi, nid yw'r gyfraith yn addas i'r diben mewn perthynas â dulliau angladdol newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, fel hydrolysis alcaliaidd, neu leihau organig naturiol, a elwir weithiau'n "compostio dynol", yr honnir eu bod yn fwy cynaliadwy yn amgylcheddol. Yn y cyd-destun sensitif hwn, gall yr ansicrwydd sy'n deillio o absenoldeb rheoleiddio fod yn rhwystr i fuddsoddi, gan gyfyngu ar ddewis i unigolion a theuluoedd.

Nod yr is-brosiect dulliau angladdol newydd yw creu fframwaith sy'n addas ar gyfer y dyfodol sy'n cwmparu arferion presennol ac sy'n hyblyg i ddarparu ar gyfer arferion newydd diogel ac urddasol. Fe wnaethom gyhoeddi papur ymgynghori ym mis Mehefin 2025. Disgwylir i'n hadroddiad gael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2026.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yw'r adran sy'n noddi.

Rhan Tri:

Gweithredu adroddiadau diwygio'r
gyfraith Comisiwn y Gyfraith 2025-26

Mae nifer o fecanweithiau ar waith sydd wedi'u cynllunio i gynyddu'r gyfradd y mae adroddiadau Comisiwn y Gyfraith yn cael eu rhoi ar waith:

- Deddf Comisiwn y Gyfraith 2009, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Arglwydd Ganghellor adrodd i Senedd y DU yn flynyddol ar gynnydd y Llywodraeth o ran gweithredu ein hadroddiadau.
- Protocolau rhwng Comisiwn y Gyfraith a Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, sy'n nodi sut dylem weithio gyda'n gilydd.
- Gweithdrefn seneddol Comisiwn y Gyfraith.

Sefydlwyd gweithdrefn seneddol benodol, a gymeradwywyd gan Dŷ'r Arglwyddi ar 7 Hydref 2010, fel ffordd o wella cyfradd gweithredu adroddiadau Comisiwn y Gyfraith. Mae biliau'n addas ar gyfer y weithdrefn hon os ystyrir eu bod yn "annadleuol"; cymerir yn gyffredinol fod hyn yn golygu bod pob mainc flaen yn y Tŷ yn gefnogol mewn egwyddor.

Mae 12 o Filiau Comisiwn y Gyfraith bellach wedi dilyn y weithdrefn hon:

- Cafodd Deddf Eiddo (Asedau Digidol etc) Gydsyniad Brenhinol ar 2 Rhagfyr 2025.
- Cafodd Deddf Cyflafareddu 2025 Gydsyniad Brenhinol ar 24 Chwefror 2025.
- Derbyniodd Deddf Dogfennau Masnach Electronig 2023 Gydsyniad Brenhinol ar 20 Gorffennaf 2023.
- Cafodd Deddf Elusennau 2022 Gydsyniad Brenhinol ar 24 Chwefror 2022.
- Cafodd Deddf Dedfrydu (Diwygiadau Cyn-cydgrynhai) 2020 Gydsyniad Brenhinol ar 8 Mehefin 2020. Cafodd y Cod Dedfrydu Gydsyniad Brenhinol ar 22 Hydref 2020 a daeth i rym ar 1 Rhagfyr 2020.
- Cafodd Deddf Eiddo Deallusol (Bygythiadau Anghyfiawn) 2017 Gydsyniad Brenhinol ar 27 Ebrill 2017.

- Cafodd Deddf Yswiriant 2015 Gydsyniad Brenhinol ar 12 Chwefror 2015.
- Cafodd Deddf Etifeddiaeth a Phwerau Ymddiriedolwyr 2014 Gydsyniad Brenhinol ar 14 Mai 2014.
- Cafodd Deddf Ymddiriedolaethau (Cyfalaf ac Incwm) 2013 Gydsyniad Brenhinol ar 31 Ionawr 2013.
- Cafodd Deddf Yswiriant Defnyddwyr (Datgelu a Chynrychioliadau) 2012 Gydsyniad Brenhinol ar 8 Mawrth 2012.
- Cafodd Deddf Trydydd Partïon (Hawliau yn erbyn Yswirwyr) 2010 Gydsyniad Brenhinol ar 25 Mawrth 2010.
- Cafodd Deddf Parhad a Chroniadau 2009 Gydsyniad Brenhinol ar 12 Tachwedd 2009.¹⁰

Yn ein hadroddiad ar Ffur a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru, roeddem wedi argymhell y dylai'r Senedd fabwysiadu gweithdrefn debyg, gan adleisio galwad gynharach am hyn gan Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Senedd. Ers hynny, mae'r Senedd wedi cyflwyno gweithdrefn Rheol Sefydlog 26C ar gyfer cyflwyno Biliau Cydgrynhai, gan gynnwys y rhai sy'n rhoi argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar waith. Mae lle hefyd i Gomisiwn y Gyfraith gynghori a yw'n briodol cynnwys rhai newidiadau a gynigir mewn Bil mewn Bil Cydgrynhai o dan y rheol sefydlog.

¹⁰ Pasiodd y Bil drwy Senedd y DU fel rhan o dreial ar gyfer gweithdrefn seneddol Comisiwn y Gyfraith.

Gweithredu ein hadroddiadau 2025-26

Dyma'r ystadegau o sefydlu'r Comisiwn yn 1965 hyd at 31 Mawrth 2026:

- Adroddiadau ar ddiwygio'r gyfraith a gyhoeddwyd – 262.
- Gweithredwyd yn gyfan gwbl neu'n rhannol – 171 (65%).¹¹
- Derbyniwyd yn gyfan gwbl neu'n rhannol, ac yn aros i gael eu gweithredu – 25 (10%).
- Derbyniwyd yn gyfan gwbl neu'n rhannol, ni fyddant yn cael eu gweithredu – 6 (2%).
- Yn aros am ymateb gan y Llywodraeth – 19 (7%).
- Gwrthodwyd – 31 (12%).
- Wedi'u disodli – 11 (4%).

Adroddiadau a weithredwyd yn ystod y cyfnod

Mae Deddf Eiddo (Asedau Digidol etc) 2025 yn gweithredu argymhellion a wnaed gyntaf yn ein hadroddiad ar Asedau Digidol yn 2023, a deddfwriaeth ddrafft a gyhoeddwyd mewn adroddiad atodol yn 2024. Daethom i'r casgliad fod rhai mathau o asedau digidol yn bethau y mae hawliau eiddo yn berthnasol iddynt. Fodd bynnag, nid ydynt yn ffitio'n rhwydd i'r categorïau o eiddo personol sydd wedi cael eu cydnabod yn draddodiadol. O ganlyniad, fe ddywedom y byddai'n well ystyried eu bod yn perthyn i gategori ar wahân. Mae'r Ddeddf yn cadarnhau bodolaeth "trydydd categori" o hawliau eiddo personol, sy'n gallu darparu ar gyfer rhai asedau digidol gan gynnwys crypto-docynnau.

Cyflwynodd Deddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr 2024 set newydd o reolau ar gyfer "cynlluniau cynilo defnyddwyr", gan gynnwys clybiau cynilo at y Nadolig a chynlluniau talu ymlaen llaw tebyg, lle mae defnyddwyr yn talu ymlaen llaw am nwyddau neu dalebau i'w danfon yn nes ymlaen. Daeth y darpariaethau hyn i rym ym mis Ionawr 2026, ac maen nhw'n gweithredu argymhelliad a wnaed yn ein hadroddiad yn 2016 ar Ragdaliadau Defnyddwyr ar Ansolfedd Manwerthwyr.

Mae'r Bil Troseddu a Phlisma a gyflwynwyd ar 25 Chwefror 2025 yn cynnwys darpariaethau a fydd yn gweithredu argymhellion a wnaed mewn nifer o brosiectau cyfraith droseddol. Mae hyn yn cynnwys diwygio sylweddol yn dilyn yr argymhellion yn ein prosiect ar atafaelu enillion troseddu ar ôl euogfarn. Ar ben hynny, mae darpariaethau a fydd yn gweithredu argymhellion yn ein prosiectau ar foderneiddio troseddau cyfathrebu (sy'n ymwneud ag: annog neu gynorthwyo hunan-niweidio difrifol, ac amlygiad); atebolrwydd troseddol corfforaethol (sy'n ymwneud â'r athrawiaeth adnabod); camddefnyddio delweddau personol (sy'n ymwneud â throseddau tynnu a gosod) gwarantau chwilio; a herwgipio a throseddau cysylltiedig (sy'n ymwneud â herwgydio plant).


Mae'r Bil Swyddfa Gyhoeddus (Atebolrwydd), a gyflwynwyd ym mis Medi 2025, yn cynnwys cymalau sydd wedi'u cynllunio i weithredu ein hargymhellion i raddau helaeth mewn perthynas â'r drosedd o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus.

Mae'r Bil Llysoedd a Thribiwnlysoedd, a gyflwynwyd ym mis Chwefror 2026, yn cynnwys cymalau sy'n defnyddio rhai o'n hargymhellion mewn perthynas â Thystiolaeth mewn Erlyniadau Troseddau Rhywiol.

¹¹ Mae hyn yn cynnwys adroddiadau sydd wedi cael eu derbyn gan y Llywodraeth ac mae'r gwaith o'u gweithredu yn mynd rhagddo.

Cyflwynodd y Senedd Ddeddf Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) 2025 ac mae'n gweithredu argymhellion yr adroddiad Diogelwch Tomenni Glo, llawer ohonynt yn llawn, ac eraill yn rhannol. Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2026 a Deddf Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) Cymru 2026 yn gweithredu argymhellion adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar Gyfraith Cynllunio yng Nghymru.

Ffigur 1: Camau cyffredin prosiect diwygio'r gyfraith



Rhan Pedwar:

Ein pobl a materion corfforaethol a mathau eraill o weithgarwch diwygio'r gyfraith

Mae Comisiwn y Gyfraith yn ddiolchgar i bawb yn y sefydliad am eu gwaith caled, eu harbenigedd a'u cefnogaeth, yn ogystal â'u cyfraniad at waith y Comisiwn.

Cyllideb

Roedd cyllid craidd Comisiwn y Gyfraith, a ddarparwyd i ni gan Senedd y DU ac a dderbyniwyd drwy'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, yn £5.16m ar gyfer 2025-26.


Roedd ein costau rhedeg ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 yn cyfateb i £6.69m (ac eithrio'r achosion o ailgodi tâl am lety a dalwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, fel y nodir yn yr atodiad ariannol). Fel y cytunwyd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder o dan ein Model Ariannol newydd, roeddem yn gallu dychwelyd cyllid a oedd yn dod i £577k (tanwariant a gynlluniwyd) yn ychwanegol at ein costau rhedeg gwirioneddol oherwydd ein bod wedi cael mwy o gyfraniadau ariannol na'r disgwyl gan adrannau Whitehall tuag at y prosiectau diwygio'r gyfraith unigol a gynhaliwyd ar eu rhan.

Staff y Comisiwn

Mae staff Comisiwn y Gyfraith yn cefnogi'r Comisiynwyr. Gweision sifil yw'r staff ac fe'u harweinir gan y Prif Weithredwyr.

Yn 2025-26, roedd 83 o bobl yn gweithio i Gomisiwn y Gyfraith (cyfwerth ag amser llawn: 75.98) ar 31 Mawrth 2026.

Ffigur 2: Pobl sy'n gweithio yn y Comisiwn (cyfwerth ag amser llawn, ar 31 Mawrth 2026) ¹²



Ymgysylltu Allanol

Mae ymgysylltu'n effeithiol â phobl a grwpiau y tu allan i'r Comisiwn yn hanfodol i lwyddiant ein gwaith. Rydym yn gweithio'n galed i sefydlu cysylltiadau cryf ag amrywiaeth eang o sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb mewn diwygio'r gyfraith, ac rydym yn gwerthfawrogi'r cysylltiadau hyn yn fawr. Rydym yn parhau i wneud cynnydd o ran ymestyn nifer y ffyrdd rydym yn ymgysylltu â'r bobl a'r grwpiau hynny.

Mae ein dyled yn fawr i bawb sy'n anfon adborth atom ar ein papurau ymgynghori, yn cyfrannu syniadau am brosiectau ar gyfer ein rhaglenni diwygio'r gyfraith, ac yn darparu mewnbyn ac arbenigedd ar bob cam o'r broses o wneud argymhellion i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

12 Ac eithrio'r Cadeirydd, Clerc y Cadeirydd a Chomisiynwyr.

Yn ogystal â'r rhai sydd â diddordeb mewn diwygio'r gyfraith, rydym yn mynd ati i ymgysylltu ag unrhyw un sydd â dealltwriaeth a phrofiad o'r meysydd cyfreithiol rydym yn ceisio eu diwygio. Mae hyn yn cynnwys creu fformatau hygyrch o'n dogfennau ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol.

Ni fyddai'n bosib yn yr adroddiad blynyddol hwn diolch yn unigol i bawb sy'n rhoi arweiniad i ni neu sy'n cynnig eu barn i ni. Fodd bynnag, hoffem ddiolch i Bwyllgor Cyngchori Cymru a'r holl sefydliadau ac unigolion hynny sydd wedi gweithio gyda ni fel aelodau o grwpiau cyngchori ar ein prosiectau niferus, ac sydd wedi cyfrannu mewn cynifer o ffyrdd at ein gwaith yn ystod y flwyddyn.

Rydym hefyd yn cydnabod y gefnogaeth a'r diddordeb a ddangoswyd yn y Comisiwn a'n gwaith gan weinidogion yn San Steffan ac yng Nghaerdydd, Aelodau Seneddol, Aelodau'r Senedd a chymheiriaid o bob rhan o'r sbectwm gwleidyddol, a gan swyddogion cyhoeddus.

Yn Senedd San Steffan ac yn y Senedd, rydym yn aml yn cael ein gwahodd i roi tystiolaeth i bwyllgorau a sesiynau arbennig i helpu gyda'u hymchwiliadau a'u hystyriaeth o Filiau, a gall rhai ohonynt gynnwys darpariaethau sy'n deillio o argymhellion Comisiwn y Gyfraith. (Gweler hefyd "Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru", tudalen 9).

Mae gennym ddyletswydd statudol i hyrwyddo diwygio'r gyfraith ac rydym yn parhau i weithio'n galed yn y maes hwn. Ochr yn ochr â chynhyrchu ffeithluniau amrywiol a fformatau amgen i esbonio pob prosiect diwygio'r gyfraith newydd, rydym yn siarad yn rheolaidd â myfyrwyr ac yn ymgysylltu â diwygwyr y gyfraith a swyddogion o bob rhan o'r DU a'r byd. Eleni, gwnaethom barhau â'n rhaglen arferol o ymweliadau allgymorth â phrifysgolion unigol, gyda llawer mwy o ddigwyddiadau eisoes wedi'u cynllunio ar gyfer 2026.

Mae ein sianeli cyfryngau cymdeithasol, X (Twitter gynt), LinkedIn ac Instagram yn parhau i dyfu. Mae LinkedIn yn sianel fwyfwy poblogaidd sydd wedi gweld cynnydd o bron i 50% yn ein dilynwyr dros y flwyddyn.

Roedd 2025 yn ben-blwydd y Comisiwn yn 60 oed ac roedd nifer o weithgareddau i nodi hyn. Roedd y rhain yn cynnwys erthyglau mewn cyhoeddiadau allanol ac arddangosfa a oedd yn dangos rôl a hanes y Comisiwn. Arddangoswyd hwn yn Senedd y DU ac yn y Llysoedd Barn Brenhinol. Uchafbwynt ein pen-blwydd yn 60 oed oedd Darlith Scarman, a roddwyd gan Mandisa Maya ym mis Tachwedd 2026, Prif Ustus benywaidd cyntaf De Affrica.

Ymgysylltu Rhyngwladol

Mae'r Cynllun Busnes yn nodi gwaith rhyngwladol fel un o flaenoriaethau Comisiwn y Gyfraith, ac rydym wedi parhau i ehangu'r maes hwn o'n gweithgareddau. Ym mis Tachwedd, fe wnaethom gyhoeddi strategaeth ryngwladol newydd ar gyfer 2025-2027. Mae hwn yn nodi fframwaith clir a phwrpasol ar gyfer sut byddwn yn mynd i'r afael â gwaith rhyngwladol dros y cyfnod hwn, gan sicrhau bod ffocws i'n hymdrechion a'u bod yn gymesur ac yn cael effaith.

Mae'r strategaeth hon yn cynorthwyo'r sefydliad ar bob lefel wrth ystyried a ddylid ymgysylltu'n rhyngwladol, a sut, gan nodi meini prawf ar gyfer yr ymgysylltu hwnnw. Mae'r strategaeth yn amlinellu pedwar prif amcan:

1. Cynnal enw da Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr fel arweinwyr byd-eang ym maes diwygio'r gyfraith, gan helpu i gynnal statws dihafal cyfraith Cymru a Lloegr, a chefnogi statws rhyngwladol y DU.
2. Helpu systemau cyfreithiol i ddatblygu drwy ddiwygio'r gyfraith, gan gefnogi rheolaeth y gyfraith.
3. Defnyddio ymgysylltu rhyngwladol i gefnogi dysgu.

4. Cefnogi cydweithio amlochrog rhyngwladol, gan ddod â diwygwyr y gyfraith at ei gilydd i drafod materion cyffredin.

Mae uchafbwyntiau ein gwaith ymgysylltu allanol dros y flwyddyn yn cynnwys:

1. Cynhadledd Cyfraith y Gymanwlad ym Malta: Mae hyn yn digwydd bob dwy flynedd ac yn dod â gweithwyr cyfreithiol proffesiynol o bob rhan o'r Gymanwlad at ei gilydd. Cafodd Comisiwn y Gyfraith ei gynrychioli gan nifer fach o ddirprwyon, gan gynnwys y Cadeirydd a roddodd gyflwyniad ar ddiwygio'r gyfraith yn y gynhadledd.
2. Cynhadledd Cymdeithas Asiantaethau Diwygio'r Gyfraith y Gymanwlad (CALRAs) ym Malta: Roedd hon yn gynhadledd bwysig a ddaeth ag asiantaethau diwygio'r gyfraith o bob cwr o'r byd at ei gilydd. Cyflwynodd y Cadeirydd yn y gynhadledd, gan fyfyrar ar ein pen-blwydd yn 60 oed.
3. Cynhadledd Cymdeithas Asiantaethau Diwygio'r Gyfraith Dwyrain a De Affrica (ALRESEA) ym Malawi: Rhoddodd ein Comisiynydd Cyfraith Gyhoeddus a'r Gyfraith yng Nghymru, yr Athro Alison Young, a Phennaeth y Gyfraith, Matthew Jolley, gyflwyniad ar Wneud Penderfyniadau Awtomataidd ac ar ddefnyddio deallusrwydd artifisial wrth ddiwygio'r gyfraith. Roedd yr ymweliad hefyd yn cynnwys cyfarfodydd ag amrywiaeth o sefydliadau rheolaeth y gyfraith Malawi. Roedd hwn yn gyfle unigryw i gyfrannu at ddiwygio cyfraith Affrica ac i feithrin cysylltiadau â diwygwyr a chyrff rheolaeth y gyfraith yn Affrica.
4. Cynhadledd Diwygio'r Gyfraith y 5 Gwlad yn Nulyn: Fe wnaethom anfon cynrychiolaeth i'r digwyddiad blynyddol hwn i ymgysylltu â'n cymheiriaid yn yr Alban, Iwerddon, Gogledd Iwerddon a Jersey. Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar waith pob Comisiwn ac ar arferion diwygio'r gyfraith.

Cynhaliwyd y gynhadledd yn Nulyn yn union cyn Cynhadledd hanner canmlwyddiant Comisiwn Diwygio'r Gyfraith Iwerddon lle rhoddodd y cyn Gomisiynydd, David Hertzell, gyflwyniad ar ein gwaith.

5. Cynhadledd hanner canmlwyddiant Comisiwn Diwygio'r Gyfraith Awstralia ym Melbourne: Rhoddodd Pennaeth y Gyfraith gyflwyniad ar ddau banel ("Diwygio'r Gyfraith o amgylch y Byd" a "Deallusrwydd Artiffisial a Diwygio'r Gyfraith"). Roedd yr ymweliad hefyd yn cynnwys nifer o gyfarfodydd dwyochrog gyda sefydliadau diwygio'r gyfraith Awstralia a gyda phrifysgolion, gan feithrin perthnasoedd a rhannu dealltwriaeth am ddiwygio'r gyfraith.
6. Ymweld â Chanada: Cafodd y Cadeirydd a'n Comisiynydd Cyfraith Trosedd, yr Athro Penney Lewis, ymweliad hynod lwyddiannus â Toronto ac Ottawa. Roedd hyn yn cynnwys trafodaethau manwl gyda Chomisiwn y Gyfraith yng Nghanada a Chomisiwn y Gyfraith yn Ontario ar amrywiaeth eang o faterion fel y berthynas rhwng diwygio'r gyfraith a rheolaeth y gyfraith, a diwygio'r gyfraith wrth ymateb i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial. Roedd yr ymweliad hefyd yn cynnwys cyfarfodydd gyda Phrif Ustus Uwch Lys Ontario, Barnwyr Llys Apêl Ontario, cynrychiolwyr o'r Adran Gyfiawnder ffederal a Dirprwy Uchel Gomisiynydd Canada.

Ochr yn ochr â'n hymgysylltu allanol, fe wnaethom groesawu nifer o ymwelwyr tramor. Fel rhan o'n dathliadau pen-blwydd yn 60 oed, fe wnaethom gynnal bwrdd crwn rhyngwladol i ddiwygio'r gyfraith. Yna cynhaliodd Dinas Llundain y Cinio i ddathlu 60 mlynedd ac ymhlith y gwesteion roedd Prif Ustus Canada, Llywydd Comisiwn y Gyfraith Canada, Cadeirydd Comisiwn Diwygio'r Gyfraith Fictoriaidd (a Llywydd CALRAs), Cadeirydd Comisiwn y Gyfraith yn yr Alban a Chadeiryddion Comisiynau'r Gyfraith yn Iwerddon a Gogledd

Iwerddon. Fe wnaethom gwblhau ein dathliadau pen-blwydd yn 60 oed gyda Phrif Ustus De Affrica yn traddodi Darlith Scarman.

Roedd gweithgareddau eraill yn cynnwys croesawu cynrychiolwyr o Tanzania i drafod ein prosiect ar dystiolaeth mewn erlyniadau troseddau rhywiol i'w helpu i ddeall mythau am dreisio. Fe wnaethom groesawu cynrychiolwyr o Dde Korea a oedd yn bwriadu rhoi diwygiadau tebyg ar waith i'r rhai a argymhellwyd mewn nifer o'n prosiectau cyfraith fasnachol yn y gorffennol. Croesawyd Arglwydd Ganghellor Tonga i drafod diwygio'r gyfraith yng nghyd-destun ei ymdrechion i adfywio Comisiwn Diwygio'r Gyfraith Tonga.

Un o'r uchafbwyntiau oedd croesawu swyddogion o Siambrau'r Twrnai Cyffredinol a Swyddfa Llywydd Botswana ar gyfer ymweliad hyfforddi tri diwrnod. Manteisiodd yr ymwelwyr ar y cyfle hwn i ddysgu am yr arferion gorau o ran diwygio'r gyfraith i fwydo i mewn i'w Huned newydd Diwygio'r Gyfraith. Roedd yr adborth yn cadarnhau bod yr ymwelwyr a'r sefydliad a ariannodd eu hymweliad yn ystyried y daith yn llwyddiant ysgubol, gan arwain at gais am ragor o gymorth.

Lle bo'n briodol, rydym yn cydweithio â gwahanol rannau o'r Llywodraeth a gyda chyrff eraill yn ein gwaith rhyngwladol. Mae ein hymgysylltiad wedi cael ei gefnogi, yn benodol, gan y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (a'i Chronfa Rheolaeth y Gyfraith, sy'n cael ei gweinyddu gan ROLE UK) a gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (a'i Chronfa Rheolaeth y Gyfraith). Rydym hefyd wedi elwa o fod yn aelod o Bwyllgor Rheolaeth y Gyfraith Ryngwladol y Twrnai Cyffredinol ac o gydweithio adeiladol â'r rhai sy'n ymwneud â gwaith rhyngwladol y Farnwriaeth.

Siarad am Ddiwygio'r Gyfraith

Fel sefydliad sy'n edrych tuag allan, mae Cadeirydd, Comisiynwyr a staff y Comisiwn wedi bod wrthi'n siarad mewn llawer o wahanol

ddigwyddiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb. Mae llawer wedi bod yn ddigwyddiadau hybrid sy'n caniatáu mwy o fynediad i randdeiliaid.

Dyma rai enghreifftiau o'n hymrwymadau siarad rhwng mis Ebrill 2025 a mis Mawrth 2026:

- Cymryd rhan yn y Grŵp Arbenigwyr ar Docynnau Digidol yng Nghonfensiwn yr Hâg ar Gyfraith Ryngwladol Breifat.
- Siarad fel rhan o banel yn Wythnos Cyflafareddu Paris.
- Cyflwyno ein prosiect atebolrwydd cynnyrch i grŵp o ymarferwyr yn Sefydliad Cyfraith Ryngwladol a Chymharol Prydain a chyflwyno gweminar hefyd ar Ddiwygio Atebolrwydd Cynnyrch wedi'i drefnu gan Sefydliad Cyfraith Ewrop (ELI) y DU.
- Siarad am ein gwaith yn y Gweithdy Atebolrwydd Cynnyrch wedi'i gynnal gan Ysgol y Gyfraith Prifysgol Reading.
- Siarad yng nghynhadledd flynyddol Cymdeithas y Cwmnïau Cydfuddiannol Ariannol i roi trosolwg o'n gwaith ar ein hadolygiad o Ddeddfau Cymdeithasau Cyfeillgar 1974 a 1992.
- Cyflwyno i grŵp o feirniaid o'r Aifft ar ein gwaith ar asedau digidol ac ar Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023, mewn digwyddiad a drefnwyd drwy Sefydliad Slynn.
- Cyflwyno yn Fforwm Ymarferwyr blynyddol Co-operatives UK.
- Siarad yn yr ail Fforwm Rhyngwladol ar Fenthyg Croth yn Copenhagen.
- Rhoi'r brif araith yng Nghynhadledd Genedlaethol y Gymdeithas Prynu Gorfodol.
- Siarad yng Nghynhadledd flynyddol Cymru'r Gyfraith ar waith Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru.
- Rhoi'r brif araith yng nghynhadledd flynyddol LawWorks.
- Yn siarad am: "Opening up the International Dispute Resolution Toolbox: are Existing

Methods Fit for Purpose?” yn Wythnos Anghydfodau Rhyngwladol Llundain.

- Rhoi Prif Anerchiad ar y Gyfraith ac Asedau Digidol yng Nghynhadledd Cyfraith a Thechnoleg Manceinion.
- Siarad ym Manc Lloegr am y Gyfraith a Thocyneiddio.
- Cyflwyno ar ddiwygio'r gyfraith ewyllysiau yng Nghynhadledd Cleientiaid Preifat Cymdeithas y Cyfreithwyr 2025.
- Siarad yng ngweminar y Sefydliad Rheoli Etifeddiaeth am Fil Ewyllysiau 2025.
- Cyflwyno ar ddiwygio'r gyfraith ewyllysiau yng Ngŵyl Today's Wills and Probate.
- Cyflwyno ar ddiwygio'r gyfraith ewyllysiau mewn digwyddiad STEP Wales.
- Cyflwyno ar ddiwygio'r gyfraith ewyllysiau yng Nghynhadledd Etifeddiaeth Stone King.
- Cyfrannu at bodlediad ar gyfer Datrys mewn perthynas â'n gwaith ar drefniadau Benthgy Croth
- Eistedd fel aelod o'r panel mewn digwyddiad a drefnwyd gan gyfreithwyr Dawson Cornwell ar fabwysiadu a benthgy croth.
- Cyflwyno mewn cyfarfod bwrdd crwn ar wneud penderfyniadau awtomataidd a fynychwyd gan swyddogion adrannol, academyddion a'r farnwriaeth.
- Siarad mewn cynhadledd Prosiect Cyfraith Gyhoeddus ar wneud penderfyniadau awtomataidd a fynychwyd gan ymarferwyr.
- Siarad mewn trafodaeth bwrdd crwn mewn cynhadledd a gynhaliwyd gan y Grŵp Tegwch Gweinyddol ym Mhrifysgol Efrog.
- Rhoi tystiolaeth i'r Cyd-bwyllgor Hawliau Dynol ar ganfyddiadau ein hadroddiad ar ofal cymdeithasol i blant anabl.
- Siarad yng Nghynhadledd Flynyddol ICCM yn Kenilworth ar gladdu, amlosgi a dulliau angladdol newydd.
- Siarad yn y Gynhadledd Genedlaethol ar Gladdu.

- Siarad yn lansiad Comisiwn y Gyfraith Enghreifftiol BVL (Big Voice London).
- Cyflwyno ar faterion dirmyg llys i farnwyr Llys y Goron mewn hyfforddiant y Coleg Barnwrol.
- Siarad am ein gwaith ar apeliadau troseddol yn un o gyfarfodydd y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Gamweinyddiadau Cyfiawnder yn Senedd y DU.
- Siarad am ein hymgyngoriad apeliadau troseddol ar y podlediad Double Jeopardy.

Amrywiaeth a chynhwysiant

Mae cyflawni ein mandad yn golygu bod rhaid i ni ddeall sut mae'r gyfraith yn gweithredu ar draws y gymdeithas gyfan. Felly, nid yw amrywiaeth a chynhwysiant yn ategu llywodraethu da; maen nhw'n amodau craidd ar gyfer diwygio'r gyfraith mewn modd awdurdodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n meithrin hyder y cyhoedd.

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran gweithredu Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant 2023-25 a oedd yn canolbwyntio ar bedair blaenoriaeth allweddol: Cynhwysiant, Recriwtio, Cyrhaeddiad Daearyddol, ac Ymgynghori. Yn benodol, rydym wedi gwella arferion ymgysylltu rhanbarthol ac ymgynghori a recriwtio cynhwysol.

Roedd allgymorth wedi elwa o fentrau strwythuredig allanol, fel cynllun prentisiaeth ystafell y bwrdd. Mae partneriaethau â sefydliadau addysg a chyfreithiol rhanbarthol yn parhau, gan gynnwys cynllun peilot o leoliadau interniaeth gyda Phrifysgol Middlesex, a gwaith allgymorth hirdymor wedi'i deilwra gyda phrifysgolion targed ledled Cymru a Lloegr, sydd wedi cyrraedd cannoedd o fyfyrwyr, gyda'r bwriad o annog a chryfhau eu ceisiadau.

Mae'r Comisiwn yn parhau i gryfhau ei ymgysylltiad â grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli drwy ddefnyddio'r Holiadur Ymgysylltu â'r Ymgynghoriad (CEQ) sy'n ddienw ac yn gofyn

am fanylion ethnigrwydd, anabledd, rhywedd a symudedd cymdeithasol ymgynghoreion drwy ffurflenni Microsoft. Mae data sy'n cael ei gasglu drwy'r CEQ yn galluogi addasiadau wedi'u targedu, gan gynnwys yr opsiwn o ymgysylltu â grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli drwy rwydweithiau sefydledig, er mwyn sicrhau sylfaen dystiolaeth fwy cytbwys a chynhwysol.

Rydym wedi ymgorffori llawer o'r newidiadau strwythurol a diwylliannol a amlinellir yn y strategaeth ar yr un pryd â nodi meysydd i'w gwella. Fe ddysgom fod data cadarn ac atebolrwydd clir yn hanfodol ar gyfer newid parhaol.

Ein Comisiynau Cyfraith partner a'r awdurdodau datganoledig

Roedd yn flin iawn gennym ffarwelio â'r Arglwyddes Ann Paton fel Cadeirydd Comisiwn y Gyfraith yn yr Alban ym mis Rhagfyr 2025. Roedd yr Arglwyddes Paton wedi bod yn Gadeirydd ers 2019 ac mae wedi bod yn ffigur uchel iawn ei pharch, yn yr Alban ac yn y gymuned ryngwladol ar gyfer diwygio'r gyfraith. Edrychwn ymlaen at gwrdd â'i holynydd ar ôl iddynt gael eu penodi. Yn y cyfamser, rydym yn parhau i weithio'n arbennig o agos gyda'n cydweithwyr yng Nghomisiwn y Gyfraith yn yr Alban, gan ofyn am farn fel y bo'n briodol ac ymgysylltu'n rheolaidd.

Nid yw Comisiwn y Gyfraith Gogledd Iwerddon wedi bod yn weithredol ers 2015 ond mae'n parhau ar sail statudol o dan Ddeddf Cyfiawnder (Gogledd Iwerddon) 2002 ac mae ganddo farnwr dynodedig i arwain ar faterion diwygio'r gyfraith. Rydym yn dal yn obeithiol y bydd Comisiwn y Gyfraith Gogledd Iwerddon mewn sefyllfa i ddychwelyd i fod yn gwbl weithredol ac rydym yn edrych ymlaen at weithio ar brosiectau perthnasol.

Iechyd a diogelwch

Yn ystod y flwyddyn, ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau hysbysadwy mewn perthynas â staff y Comisiwn a Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974.

Uwch Arweinwyr



Syr Peter Fraser
Cadeirydd



Yr Athro Penney Lewis



Yr Athro Alison Young



Yr Athro Lisa Webley



Yr Athro Solène Rowan



Yr Athro Nick Hopkins
(Comisiynydd hyd at fis
Mehefin 2025)



**Joanna Otterburn
a Stephanie Hack**
Prif Weithredwyr ar y Cyd

Rhan Pump:

Gwerthuso Cynllun Busnes 2025-26

Ein Cynllun Busnes ar gyfer 2025-26

Mae ein Cynllun Busnes 2025-26 yn nodi pedair blaenoriaeth allweddol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2025 a mis Mawrth 2026. Mae gweithio ar y blaenoriaethau hyn yn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwerth cymdeithasol ac economaidd drwy ddiwygio'r gyfraith mewn modd o safon ac o'r radd flaenaf. Pwrpas y gwerthusiad hwn yw monitro a chyfleu ein cynnydd, a datblygu ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Blaenoriaeth 1: Gosod y sylfeini ar gyfer rhaglen waith newydd

Yng Nghynllun Busnes 2025-26, fe wnaethom nodi:

“Mae gwaith Comisiwn y Gyfraith yn cynnwys rhaglenni diwygio'r gyfraith a chyfeiriadau gweinidogol ad hoc. Byddwn yn gweithio gyda'r Arglwydd Ganghellor, adrannau'r llywodraeth a Llywodraeth Cymru, i osod sylfeini pwysig ar gyfer ein gwaith dros y blynyddoedd nesaf.”

Cynnydd

Yn ystod 2025/26, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith 11 o bapurau ymgynghori ac adroddiadau terfynol. Ym mis Medi 2025, gosododd yr Arglwydd Ganghellor ein 14eg Raglen Diwygio'r Gyfraith gerbron Senedd y DU. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys deg prosiect pwysig i ddiwygio'r gyfraith a fydd yn ffurfio'r rhan fwyaf o waith Comisiwn y Gyfraith dros y blynyddoedd nesaf. Cafodd y rhain eu dewis yn dilyn proses werthuso drylwyr ar feini prawf gan gynnwys y manteision posib a fyddai'n deillio o ddiwygio, ai Comisiwn y Gyfraith annibynnol, anwleidyddol yw'r corff mwyaf addas i gynnal adolygiad yn y maes hwnnw o'r gyfraith, ac i ba raddau y mae'r gyfraith yn y maes hwnnw'n anfodhaol.

Ymgysylltu â Senedd y DU

Mae Comisiwn y Gyfraith yn parhau i ymgysylltu â Senedd y DU a'r Senedd. Rhoddodd Cadeirydd Comisiwn y Gyfraith a'r Comisiynwyr dystiolaeth i amrywiol bwyllgorau dethol drwy gydol 2025-26. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Tystiolaeth a roddwyd gan y Comisiynydd Cyfraith Gyhoeddus a'r Gyfraith yng Nghymru i Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd ym mis Medi 2025.
- Tystiolaeth a roddwyd gan Gadeirydd Comisiwn y Gyfraith a'r Comisiynydd Cyfraith Trosedd i'r Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder ym mis Tachwedd 2025.
- Tystiolaeth a roddwyd gan y Comisiynydd Cyfraith Trosedd i Bwyllgor y Bil Swyddfa Gyhoeddus (Atebolrwydd) ym mis Tachwedd 2025.
- Tystiolaeth a roddwyd gan y Comisiynydd Cyfraith Gyhoeddus a'r Gyfraith yng Nghymru i'r Pwyllgor Dethol ar Hawliau Dynol ym mis Rhagfyr 2025.

Ochr yn ochr â chyflawni prosiectau sydd wedi'u cynnwys yn y 13eg Raglen a'r 14eg Raglen, mae Comisiwn y Gyfraith yn gweithio ar nifer o brosiectau y gwnaethom gytuno i'w derbyn fel cyfeiriadau o bob rhan o Whitehall a Llywodraeth Cymru. Mae cyflawni'r cyfeiriadau hyn yn caniatáu i Gomisiwn y Gyfraith barhau i fod yn hyblyg i feysydd diwygio'r gyfraith uchel eu blaenoriaeth. Mae'r prosiectau cyfeirio newydd yr ymgymerydd â nhw yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys: prosiect ar reoleiddio amgylcheddol a ffermio ar gyfer Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, prosiect ar hygyrchedd trafndiaeth ar gyfer yr Adran Drafndiaeth a phrosiect ar gyd-achosion defnyddwyr ar gyfer yr Adran Busnes a Masnach.

Rydym yn parhau i feithrin perthynas gadarn â rhanddeiliaid ac adrannau'r llywodraeth ledled Cymru a Lloegr, i helpu i gyflawni gwaith Comisiwn y Gyfraith. Yn 2025, fe wnaethom ddathlu 60 mlynedd ers sefydlu Comisiwn y Gyfraith; roedd hyn yn cynnig mwy o gyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith ymhlith amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys y farnwriaeth, y Llywodraeth, seneddswyr a Llywodraeth Cymru. Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd arddangosfa o faneri gwybodaeth a deithiodd o amgylch y Llysoedd Barn Brenhinol a Senedd y DU, tystiolaeth o waith Comisiwn y Gyfraith a roddwyd gan Gadeirydd Comisiwn y Gyfraith a'r Comisiynwyr i amrywiol Bwyllgorau Dethol Seneddol, a sesiynau a gynhaliwyd gyda swyddogion yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder a gyda Grŵp Uwch Arweinwyr Llywodraeth Cymru ar waith Comisiwn y Gyfraith. Cynhaliwyd cyfarfodydd hefyd i drafod gwaith Comisiwn y Gyfraith gyda'r Twrnai Cyffredinol a'r Cyfreithiwr Cyffredinol, a gyda'r Gweinidog sy'n noddi yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Cafodd gwaith Comisiwn y Gyfraith sylw arbennig yn y Senedd ac yn Senedd San Steffan eleni, wrth i ddeddfwriaeth gael ei phasio a oedd yn rhoi argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar waith. Yn y Senedd, wrth i Fil Cynllunio (Cymru) basio drwy'r Senedd, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, Julie James AS:

“Hoffwn gydnabod Comisiwn y Gyfraith yn arbennig am ei adroddiad ar gyfraith cynllunio yng Nghymru. Mae'r Biliau, i raddau helaeth, yn gynnyrch ei ddadansoddiad manwl ac annibynnol, ac mae hyn yn parhau â'r bartneriaeth gadarn rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Gyfraith yn ein cenhadaeth gyffredin i foderneiddio a rhesymoli cyfraith Cymru.”¹³

Yn sgil pasio Deddf Eiddo (Asedau Digidol etc) 2025, dywedodd y Gweinidog Cyfiawnder, Sarah Sackman CB AS:

“Mae Comisiwn y Gyfraith yn haeddu cydnabyddiaeth arbennig am ei waith rhagorol ... y mae'r Bil hwn yn seiliedig arno. Mae eu gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi bod o'r safon uchaf ac wedi dangos manteision diwygio'r gyfraith yn gydlynol – tryloyw, dan arweiniad arbenigwyr ac ymgynghorol iawn.”¹⁴

¹³ Cofnod Trafodion y Senedd, 10 Mawrth 2026, 325.

¹⁴ Hansard (HL), 19 Tachwedd 2025, cyfrol 775, col 811.

Aros yn effro i faterion newydd sy'n effeithio ar gymdeithas: Astudiaeth achos ar bapurau cwmpasu

Fel corff diwygio'r gyfraith annibynnol, penodedig Cymru a Lloegr, mae'n hanfodol bod Comisiwn y Gyfraith yn cadw llygad am faterion sy'n effeithio ar gymdeithas ac yn gallu cwmpasu pynciau diwygio'r gyfraith. Mae ein papurau cwmpasu a'n papurau trafod yn aml yn fyrrach ac yn cael eu prosesu'n gyflymach na'n hadroddiadau llawn. Mae papurau cwmpasu yn ein galluogi i brofi maint y problemau mewn maes cyfreithiol ac archwilio a allai diwygio'r gyfraith fod yn ateb. Mae'r rhain yn eu hanfod yn werthfawr ond gallant hefyd arwain at adroddiadau llawn gydag argymhellion i ddiwygio'r gyfraith.

- Ym mis Gorffennaf 2025, fe wnaethom gyhoeddi papur trafod ar ddeallusrwydd artiffisial a'r gyfraith. Ar bwnc mor bwysig sy'n dod i'r amlwg, nod hyn oedd codi ymwybyddiaeth o faterion cyfreithiol sy'n ymwneud â deallusrwydd artiffisial a sbarduno trafodaeth ehangach ar y pwnc, fel cam at nodi'r meysydd hynny lle mae angen diwygio'r gyfraith fwyaf.
- Ym mis Chwefror 2026, fe wnaethom gyhoeddi papur cwmpasu ar gyfraith amaethyddol yng Nghymru. Mae'r papur yn garreg filltir bwysig yn y fenter ehangach i godeiddio'r gyfraith yng Nghymru a chafodd ei lywio gan farn amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys ffermwyr, undebau, cyrff rheoleiddio, academyddion a gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, i sicrhau bod lleisiau pawb y mae'r papur yn effeithio arnynt yn cael eu cynrychioli.

Blaenoriaeth 2: Datblygu ffyrdd o ymgysylltu â chynulleidfaoedd presennol a chynulleidfaoedd newydd

Yng Nghynllun Busnes 2025-26, fe wnaethom nodi:

“Mae’n hanfodol ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid ledled Cymru a Lloegr er mwyn diwygio’r gyfraith yn dda. Drwy ddatblygu ffyrdd o ymestyn ein cyrhaeddiad, gallwn sicrhau bod ein gwaith yn gynhwysol ac yn ystyried safbwyntiau a phrofiadau amrywiol. Drwy ymgysylltu’n llawn â’r cyhoedd, bydd hyn yn sicrhau eu bod yn rhan ystyrion o’r broses o lunio ein hargymhellion a sut rydym yn cyfathrebu.”

Cynnydd

Gwnaed cynnydd pwysig ar y flaenoriaeth hon drwy weithredu elfennau allweddol o strategaeth gyfathrebu newydd Comisiwn y Gyfraith. Roedd y strategaeth hon yn canolbwyntio’n benodol ar ffyrdd arloesol o gynnwys y cyhoedd yng ngwaith Comisiwn y Gyfraith.

Fe wnaethom archwilio cyfryngau newydd a gwahanol er mwyn cyrraedd cynulleidfa eang, gan arwain at lansio tudalen Instagram newydd Comisiwn y Gyfraith i gyrraedd cynulleidfaoedd iau, gyda 63% o ddefnyddwyr Instagram rhwng

18 a 34 oed. Er mwyn sicrhau bod ein sianeli cyfryngau cymdeithasol presennol yn edrych yn fodern ac yn gydlynol, fe wnaethom ddylunio a chreu templedi wedi’u brandio, sydd hefyd yn gwneud ein cynnwys yn fwy hygyrch ac yn haws ei rannu.

Rydym yn parhau i neilltuo adnoddau i ddatblygu fersiynau Cymraeg, cryno a hawdd eu darllen o gyhoeddiadau Comisiwn y Gyfraith er mwyn gwella cyrhaeddiad a hygyrchedd y cyhoeddiadau hyn. Eleni, fe wnaethom ddatblygu ffyrdd ychwanegol o wneud cyhoeddiadau Comisiwn y Gyfraith yn fwy hygyrch i ystod ehangach o gynulleidfaoedd. Cynhyrchwyd fersiwn sain ar gyfer ein hadroddiad ar ofal cymdeithasol i blant anabl ym mis Medi 2025, ochr yn ochr ag animeiddiad byr, sef y cyntaf o’i fath ar gyfer adroddiad gan Gomisiwn y Gyfraith. Fe wnaethom ddewis datblygu fersiwn sain ac animeiddiad ar gyfer y prosiect hwn gan ei fod yn effeithio ar ystod mor eang o bobl – plant a phobl ifanc anabl, teuluoedd, gweithwyr cymdeithasol ac elusennau – na fyddent fel arall yn gallu dod ar draws ein cyhoeddiadau ffurf hir, neu’n gallu cael gafael arnynt yn rhwydd. Roedd y fersiwn sain a’r animeiddiad yn ffordd o gyrraedd y gynulleidfa ehangach hon a chlywed ganddi. Mae gan ein hadroddiad ar ofal cymdeithasol i blant anabl y potensial i drawsnewid y cymorth i hyd at 5 miliwn o blant dros y degawd nesaf.

Ein strategaeth gyfathrebu mewn rhifau

Mae Comisiwn y Gyfraith wedi gweld **cynnydd o ran cynulleidfa ac ymgysylltu â’r cyfryngau cymdeithasol**. Er enghraifft, yn 2024 cawsom 957 o ddilynwyr newydd ar LinkedIn, ac yn 2025 cawsom 3,569 o ddilynwyr newydd. Ar gyfartaledd, roedd nifer yr argraffiadau misol ar LinkedIn yn 10,227 yn 2024, ac yn 2025 roedd hyn wedi codi i 18,857.

Yn 2025, gwelodd Comisiwn y Gyfraith **gynnydd o 27% yn nifer yr ymweliadau â gwefan** Comisiwn y Gyfraith a gafodd ei hailwampio’n sylweddol yng ngoleuni data ar farn defnyddwyr, a’i hail-lansio ym mis Mawrth 2025. Mae traffig i wefan Comisiwn y Gyfraith o ddolenni ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol wedi codi o 1.4% yn 2024 i 5.1% yn 2025.

Fe wnaethom hefyd gryfhau ein harferion ymgynghori drwy gasglu data demograffig a daearyddol am ymgynghoreion yn systematig drwy holiadur dewisol ymgysylltu â'r ymgynghoriad. Mae'r wybodaeth a gawsom o hyn eisoes wedi llywio addasiadau wedi'u targedu lle nad oedd grwpiau penodol yn cael eu cynrychioli'n ddigonol yn ein hymgyngoriadau, gan alluogi ymgysylltu mwy teg a chynrychioliadol. Mae'r dull hwn sy'n seiliedig ar dystiolaeth bellach yn cael ei wreiddio fel mater o drefn ar draws holl ymgynghoriadau Comisiwn y Gyfraith.

Mae ein gwaith allgymorth i fyfyrwyr yn parhau i gryfhau ein proses recriwtio ar gyfer rôl cynorthwydd ymchwil a dealltwriaeth y cyhoedd o waith Comisiwn y Gyfraith. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, fe wnaethom gynnal y cyflwyniad allgymorth canolog ar-lein blynyddol ym mis Rhagfyr 2025. Eleni, roedd 346 o bobl wedi mynychu'r cyflwyniad yn fyw, sy'n gynydd sylweddol ers y llynedd. Fe wnaethom hefyd barhau â'n dull wedi'i dargedu ar gyfer allgymorth prifysgolion; mae staff Comisiwn y Gyfraith wedi rhoi cyflwyniadau neu wedi mynd i ffeiriau gyrfaedd ddeg gwaith eleni, sydd wedi cyrraedd cannoedd o fyfyrwyr.

Mae ymgysylltu â'r gymuned gyfreithiol yng Nghymru hefyd yn agwedd bwysig ar y flaenoriaeth hon. Ar wahân i'n gwaith parhaus gyda Llywodraeth Cymru, mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys araith Cadeirydd Comisiwn y Gyfraith ym mis Hydref 2025 yng Nghynhadledd Cymru'r Gyfraith am ein corff cynyddol o waith diwygio'r gyfraith yng Nghymru a dau gyfarfod Pwyllgor Cynghori Cymru lle'r oedd Comisiwn y Gyfraith yn rhan annatod o'r gwaith o lunio'r cynnwys, gan weithio am y tro cyntaf gyda chyd-gynullydd newydd yng Nghymru.

Blaenoriaeth 3: Gwella ein henw da fel asiantaeth o'r radd flaenaf ym maes diwygio'r gyfraith

Yng Nghynllun Busnes 2025-26, fe wnaethom nodi:

“Fel asiantaeth o'r radd flaenaf ym maes diwygio'r gyfraith, gall Comisiwn y Gyfraith chwarae rhan unigryw yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu rheolaeth y gyfraith. Byddwn yn dod â'n sgiliau a'n profiad i gynulleidfa ehangach yn rhyngwladol, a fydd yn helpu i ddenu buddsoddiad, cefnogi gwasanaethau cyfreithiol y DU a gwella enw da'r DU dramor.”

Cynnydd

Mae enw clodwiw Comisiwn y Gyfraith am ddiwygio'r gyfraith wedi cael ei gryfhau eleni drwy lawer o enghreifftiau arwyddocaol o ymgysylltu rhyngwladol proffil uchel. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom lansio a gweithredu fersiwn wedi'i diweddarau o'n strategaeth rhyngwladol ar gyfer 2025-2027. Mae'r strategaeth hon yn tynnu sylw at werth gwaith rhyngwladol Comisiwn y Gyfraith o ran cefnogi rheolaeth y gyfraith ac enw da Comisiwn y Gyfraith dramor. Mae ymgysylltu rhyngwladol yn cefnogi asiantaethau tramor ac yn gwella ein gwaith prosiect drwy wybodaeth a dealltwriaeth gan gymaryddion rhyngwladol. Lle bo'n briodol, mae ymgysylltu'n caniatáu i Gomisiwn y Gyfraith gyfrannu at flaenoriaethau ehangach y Llywodraeth.

Mae rhai enghreifftiau allweddol o sut gwnaethom wella ein gwaith allgymorth rhyngwladol eleni yn cynnwys ymweliadau pwysig gan Gadeirydd Comisiwn y Gyfraith ag UDA a Chanada. Fe wnaethom gyflwyno yng nghynhadledd Cymdeithas Asiantaethau Diwygio'r Gyfraith y Gymanwlad ("CALRAS") ym Malta a rhoi cefnogaeth sefydliadol iddi. Fe wnaethom gymryd rhan mewn trafodaethau amlochrog gydag asiantaethau diwygio'r gyfraith eraill mewn digwyddiadau amrywiol gan gynnwys: cynhadledd hanner canmlwyddiant Comisiwn Diwygio'r Gyfraith Awstralia ym Melbourne, cyfarfod blynyddol asiantaethau diwygio'r gyfraith Cymru a Lloegr, yr Alban, Gweriniaeth Iwerddon, Gogledd Iwerddon a Jersey yn Nulyn, ac mewn cynhadledd Cymdeithas Asiantaethau Diwygio'r Gyfraith Dwyrain a De Affrica ym Malawi.

Croesawodd y Comisiwn amrywiaeth o ymwelwyr o bob cwr o'r byd i ddathliadau ei ben-blwydd yn 60 oed yn Llundain. Ar wahân, fe wnaethom hefyd gwrdd ag amrywiaeth o ymwelwyr rhyngwladol a oedd yn dymuno trafod y broses o ddiwygio'r gyfraith neu feysydd gwaith unigol, gan gynnwys Gweinyddiaeth Gyfiawnder De Korea, barnwriaeth Tanzania ac Arglwydd Ganghellor Tonga.

Mae Comisiwn y Gyfraith yn parhau i ddatblygu perthynas waith gadarn gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu ("FCDO") i helpu i gefnogi ein gwaith rhyngwladol. Mae'r FCDO yn darparu cymorth yn y wlad yn ystod ymweliadau rhyngwladol Comisiwn y Gyfraith. Fe wnaethom gais llwyddiannus i gronfa rheolaeth y gyfraith y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gefnogi'r gwaith o weithredu ein strategaeth ryngwladol ac rydym wedi cael gwahoddiad i wneud cais eto am gyllid ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27.

Comisiwn y Gyfraith fel asiantaeth o'r radd flaenaf ym maes diwygio'r gyfraith: Astudiaeth achos, Uned Diwygio'r Gyfraith Botswana

Cysylltodd ROLE UK, rhaglen a ariennir gan yr FCDO, â Chomisiwn y Gyfraith i hwyluso ymweliad gan uned Diwygio'r Gyfraith Botswana sydd newydd ei ffurfio ym mis Mai 2025. Fel corff sydd ag enw da am arddangos yr arferion gorau o ran diwygio'r gyfraith, fe wnaethom rannu rhywfaint o'n gwybodaeth â thîm Botswana a rhoi cyfle iddynt arsylwi ein trafodaethau ynghylch diwygio'r gyfraith. Fe wnaethom hefyd drefnu i'r tîm ymweld â Chomisiwn y Gyfraith yr Alban, er mwyn cynnig safbwynt gwahanol. Cafodd y tîm wybodaeth am amrywiaeth eang o faterion sefydliadol ac agweddau ar waith prosiect diwygio'r gyfraith i'w hystyried wrth ddechrau gweithgareddau eu huned. O ganlyniad i lwyddiant yr ymweliad, rydym wedi cael gwahoddiad i Botswana i barhau â'n perthynas.

Blaenoriaeth 4: Gwella ein ffyrdd o weithio

Yng Nghynllun Busnes 2025-26, fe wnaethom nodi:

“Mae Comisiwn y Gyfraith yn sefydliad bach. Mae tua 70 aelod o staff, ac mae gan 90% ohonynt rolau cyfreithiol sy’n diwygio’r gyfraith. Tua £6 miliwn yw’r gost gweithredu.”

Mae parhau i ddatblygu ffyrdd arloesol ac effeithiol o weithio yn ein galluogi i barhau i ddiwygio’r gyfraith mewn modd o safon a sicrhau gwerth am arian i drethdalwyr.

Cynnydd

Mae Comisiwn y Gyfraith yn darparu gwerth am arian i drethdalwyr drwy fod yn sefydliad effeithlon, effeithiol a chynhyrchiol. Mae dadansoddiad annibynnol wedi dangos bod yr allbynnau rydym yn eu cyflawni, yn bennaf argymhellion diwygio’r gyfraith yn ein hadroddiadau terfynol a’n biliau drafft, yn cefnogi twf economaidd a llesiant dinasyddion. Amcangyfrif o’r enillion economaidd o’r pum prosiect gwerth uchaf a gwblhawyd ers 2019 yw tua £670 miliwn dros 10 mlynedd.¹⁵ O ystyried ein bod fel arfer yn gweithio ar tua 20 o brosiectau manwl o ansawdd uchel y flwyddyn, mae Comisiwn y Gyfraith yn sefydliad cymharol syml, gyda tua 80 aelod o staff, gyda’r mwyafrif helaeth ohonynt yn gweithio mewn rolau cyfreithiol yn cynhyrchu’r allbynnau hyn yn uniongyrchol.

Fodd bynnag, rhaid i ni sicrhau bod gan Gomisiwn y Gyfraith y gallu a’r capasiti angenrheidiol, a’i fod yn gallu dal i fyny â disgwyliadau mewn cymdeithas, er enghraifft drwy ddefnyddio sianeli cyfathrebu’n briodol a chyrraedd safonau cadarn ar gyfer data a dadansoddi. Eleni, fe wnaethom ofyn i arbenigwyr o’r tu allan i Gomisiwn y Gyfraith gynnal adolygiad o’n model gweithredu. Nododd hyn gyfleoedd i feithrin mwy o wydnwch yr ydym yn bwriadu ei roi ar waith dros y blynyddoedd nesaf, yn amodol ar ystyriaethau cyllido. Rydym hefyd wedi sefydlu Tasglu Deallusrwydd Artiffisial i dreialu a mabwysiadu atebion deallusrwydd artiffisial i wella cynhyrchiant ar yr un pryd â glynu wrth werthoedd ein sefydliad

o ran annibyniaeth, gonestrwydd ac arbenigedd. Datblygwyd y gwerthoedd hyn ar ôl ymgysylltu â staff a Bwrdd Comisiwn y Gyfraith. Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu gweithio’n dda gyda phynciau sensitif a materion anodd, rydym wedi parhau i gynig hyfforddiant pwrpasol a rheolaidd i staff ar ymarfer sy’n ystyriol o drawma ac rydym wedi rhoi hyn ar waith wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac yn ein ffyrdd mewnol o weithio drwy gydol y flwyddyn. Rydym hefyd wedi dechrau gweithio i edrych ar sut rydym yn diwygio’r gyfraith mewn ffordd sy’n ymateb i anghenion pob cenhedlaeth o ran manteisio ar ddonau’n fewnol, ac ymgysylltu ag ymgynghoreion a’r cyhoedd. O ran llywodraethu da, eleni fe wnaethom ymgysylltu ag adolygwr annibynnol i gynnal Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd i wneud argymhellion am strwythurau llywodraethu’r sefydliad a’i ffyrdd o weithio i sicrhau ein bod yn cyrraedd safonau byrddau’r sector cyhoeddus ac yn mabwysiadu’r arferion gorau.

Rhan annatod o’n henw da fel asiantaeth diwygio’r gyfraith o’r radd flaenaf yw profiad, arbenigedd a gwybodaeth y rhai sy’n gweithio yng Nghomisiwn y Gyfraith, a’r rhai sy’n ei arwain. Roeddem felly’n falch o groesawu dau Gomisiynydd y Gyfraith newydd ym mis Medi 2025, yr Athro Lisa Webley fel y Comisiynydd Cyfraith Eiddo, Teulu ac Ymddiriedolaethau, a’r Athro Solène Rowan fel y Comisiynydd Cyfraith Fasnachol a Chyfraith Gyffredin. Ym mis Chwefror 2026, fe wnaethom gyhoeddi bod Dr Nerys Llewelyn Jones wedi cael ei phenodi i rôl Cwnsler Arbennig Cymru. Agwedd allweddol ar ei rôl fydd helpu i wneud gwaith diwygio’r gyfraith yn fwy perthnasol i gymunedau yng Nghymru ac i gyrraedd mwy o gymunedau o’r fath. Yn olaf, rydym hefyd wedi cynyddu gwydnwch ar lefelau staff uwch yng Nghomisiwn y Gyfraith drwy greu swyddi Uwch Gyfreithiwr parhaol newydd. Mae’r rolau hyn yn sicrhau, ochr yn ochr â Phenaethiaid Tîm, fod gan bob tîm diwygio’r gyfraith uwch aelod o staff sydd ag arbenigedd sylweddol mewn diwygio’r gyfraith a hefyd profiad helaeth o reoli ac arwain, i gefnogi’r gwaith o ddiwygio’r gyfraith yn well.

¹⁵ Comisiwn y Gyfraith, **Value of Law Reform – Update** (Chwefror 2024).

Atodiadau

Atodiad A:

Statws gweithredu adroddiadau diwygio'r gyfraith Comisiwn y Gyfraith

Rhif Comisiwn y Gyfraith	Teitl	Statws	Mesurau Cysylltiedig
2025			
425	Claddu ac Amlosgi	Yn yr arfaeth	
423	Dirmyg Llys: Atebolrwydd	Yn yr arfaeth	
422	Gofal Cymdeithasol i Blant Anabl	Yn yr arfaeth	
420	Tystiolaeth mewn erlyniadau troseddau rhywiol	Derbyniwyd yn rhannol; wrthi'n cael ei weithredu'n rhannol	Bil Llysoedd a Thriwlynlysoedd
